
# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 567 · **Medi 2025** · 70c


## Y Cylch Meithrin lleol yn dathlu yn Nhregarth

Roedd 'na hen ddathlu yn y Ganolfan Gymdeithasol yn Nhregarth Dydd Sadwrn, Gorffennaf 19. Y Cylch Meithrin lleol oedd yn dathlu penblwydd yn 50 oed. Yn Festri Capel Penygroes, sydd bellach wedi'i ddymchwel, y cychwynodd y cyfan yng Ngorffennaf 1975 pan ddaeth criw o famau ifanc y pentre at ei gilydd i sefydlu Cylch ar gyfer y plantos a hynny dan arweiniad cadarn Gwyn Williams, Chwarel Goch (BBC Bangor gynt). Bu i berthynas Gwyn a'r Cylch barhau am flynyddoedd ac ef oedd y Cadeirydd pan symudodd y Cylch i'w cartref parhaol yn y Ganolfan newydd yn Nhregarth. Bu'r dathliad yn llwyddiant mawr a diolchwn i bawb am eu cefnogaeth ddiwrnod y dathlu. Hyfryd oedd cael cyfle i weld yr arddangosfa o hen luniau oedd yn tarddu o flynyddoedd cynnar y Cylch a rhaid diolch i bawb anfonodd luniau ac i Bartneriaeth Ogwen am ddefnyddio ei sgriniau i arddangos y gwaith. Cafwyd stondinau o bob math a Chastell Bownsio ar gyfer y plant lleiaf. Diolch o galon i rai gyfranodd mewn unrhyw fodd, boed yn gyfraniad arian neu raffl, yn gweithio ar y stondinau neu yn y gegin. Mawr yw ein diolch iddynt i gyd.




*(Mwy o'r hanes a rhagor o luniau ar dudalen Tregarth.)*

## Cerdded 500 milltir



Catrin Doyle yn Cerdded 500 milltir i godi arian! (Cewch y stori yng ngholofn Gerlan)

## Dwy Wobr Fawr i Ddyffryn Ogwen





# Llais Ogwan

## Rhif 567
## Medi 2025

**Panel Golygyddol**
Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Neville Hughes.**

Y golygydd ym mis **Hydref** fydd
**Ieuan Wyn**, Talgarreg, Ffordd Carneddi,
Bethesda, LL57 3SG.
01248 600297
Ebost: ieuanwyn01@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn**, **27 Medi** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau**, **16 Hydref**, yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Awst**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (94) | Sharon Hughes, Cae Athro. |
| £20.00 | (28) | Catherine Williams, Rachub. |
| £10.00 | (39) | Alan Davies, Porthaethwy. |
| £5.00 | (15) | Luned Edwards, Braichmelyn. |

**Gwobrau Medi**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (170) | Morfudd Roberts, Erw Las, Bethesda. |
| £20.00 | (39) | Alan Davies, Porthaethwy. |
| £10.00 | (176) | Glyn P. Evans, Amwythig. |
| £5.00 | (64) | Rita Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda. |

## Dyddiadur y Dyffryn

**Medi**

20 Mawr y Rhai Bychain: Jeremy Dutcher. Yn Neuadd Ogwen.
23 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.
24 Clwb Hanes Caellwyngrudd a Llanllechid. Clwb Criced a Bowlio am 7yh.
26 Bore Coffi Macmillan. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
29 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem 10.30 – 12.00.
30 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.

**Hydref**

01 Te Bach Eglwys St. Cedol, Pentir am 2.00yp.
06 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Festri Jerusalem am 7.00yh.
06 Merched y Wawr Tregarth. "Darllen Dotiau". Capel Shiloh am 7.30.
09 Y Gymdeithas. Ben Stammers, Naturiaethwr. Festri Jerusalem am 7.
11 Bore Coffi Gofal Cancr. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
13 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem 10.30 – 12.00.
14 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.
16 Noson Gasglu a Dosbarthu Llais Ogwan. Top Cefnfaes am 6.45.
17 Cyngerdd Mawreddog Côr y Penrhyn. Capel Jerusalem am 7.30.
27 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem 10.30 – 12.00.
28 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £200.00 | Cronfa Cadeirydd Cyngor Gwynedd drwy law'r Cynghorydd Beca Roberts ar ddiwedd ei thymor. |
| £25.00 | Er cof annwyl am Denis Vaughan Griffith, Rachub, (Sling gynt) a fuasai wedi dathlu ei benblwydd yn 100 oed ar 12 Mehefin. Oddiwrth y teulu. (Cywiriad o gofnod rhifyn Mehefin). |
| £30.00 | Gomer Davies, Tal y Cae, Tregarth. |
| £50.00 | Er cof annwyl am John Rowland Jones, Awelon, Yr Ynys, Rachub, oddi wrth Millie, Catherine ac Elfyn a'r teulu |

***Diolch yn fawr.***

**Alwenna yn Ymddeol**
Mae Llais Ogwan yn dymuno diolch o galon i Alwenna Puw am ei holl waith hefo'r Llais dros y blynyddoedd. Hyd y cofiwn, bu Alwenna yn gwerthu a dosbarthu'r Llais o'r cychwyn cyntaf. A hithau wedi penderfynnu rhoi'r gorau iddi, dymunwn ymddeoliad hapus a haeddiannol iddi.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG

**Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com**

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,** Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB (01248 601318)
carys16@hotmail.com

**Moelyci**
Wrth edrych ar hen fap o'r ardal ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru, deuthum ar draws enw pur ddiarth ar ran o Foelyci sef, 'Cwael y Ci Du'. Mae'r safle mewn pant ychydig o'r copa.

Ar ôl cysylltu gyda'r Prifardd Ieuan Wyn parthed ei ddiddordeb a'i arbenigedd ar enwau lleol, tynnodd sylw i'r ffaith mai 'Gwâl y Ci Du' ydy'r enw sef, lloches y ci du. Nododd bod Hugh Derfel yn cyfeirio at y llecyn yn ei lyfr 'Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid':

*'Ar ein deheulaw dyna fryn etto, a elwir Moel y Cî; ac ar ei phen, mae gŵylfa a elwir Gwâl y Ci Dû.....'*

Fe aeth Ieuan yn ei flaen i nodi bod enwau tebyg yn bodoli yn yr ardal. Mae Pen yr Helgi Ddu yn cyfeirio at yr helgwn a ddefnyddid i hela'r ceirw ac mae Carnedd y Filiast yn rhan o gadwyn y Glyderau.

Nid yw'n amhosib meddwl bod y 'ci du' yn cyfeirio at y blaidd, creadur cyffredin yng Nghymru cyn ei ddifa'n llwyr o'r wlad yn ystod yr oesoedd canol.

Byddaf yn atgyfodi'r defnydd o 'Gwâl y Ci Di' gan obeithio bydd eraill hefyd yn gwneud hynny ar ôl darllen y pwt bychan yma.

**Llongyfarchiadau lu**
Bu i Ysgol Glanaethwy dan arweiniad Cefin a Rhian, Sgwâr Pentir brofi gryn lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni. Mae'n glod i'r ddau a'r côr ar ennill y tlws ar gyfer 'Y Gân Gymraeg Orau'. Tlws arall i'w gosod gydag eraill ar y silff ym Mhentir!

## Gwahoddiad i Ymuno â Chôr

Gyda'r hydref a'r gaeaf ar ein gwarthaf, beth am ddechrau canu trwy ymuno â chôr lleol?

Mae Cantorion Menai yn gôr sydd wedi hen ennill ei blwyf erbyn hyn. Mae croeso cynnes i chi ymuno â'r côr yr hydref yma. Bydd y côr yn cyfarfod bob nos Fawrth yng nghapel Tabernacl y Borth dan arweiniad Steven Evans.

Y gweithiau y tymor yma fydd 'Atgof o'r Sêr' gan Robat Arwyn, a 'Ceremony of Carols' gan Benjamen Britten. Bydd y côr yn perfformio'r gweithiau yma mewn cyngerdd yng nghapel Rhos y Gad, Llanfairpwll, nos Sadwrn, Tachwedd 29. Croeso cynnes i bawb.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â **Margaret Roberts**, margaretroberts123456@gmail.com neu **Nia Llwyd** 07733166655



## Eglwys St. Cedol, Pentir

**Cadw Eglwys St Cedol**
Ers dros dair blynedd bellach mae aelodau pwyllgor *Cadw Eglwys St Cedol* wedi bod wrthi'n ddyfal yn codi arian i atgyweirio'r eglwys hynafol ym Mhentir. Bydd yr atgyweirio a'r addasu yn digwydd mewn tri cham a bydd y gwaith dechreuol wedi cychwyn erbyn y bydd hyn o eiriau yn eich cyrraedd.

Cyngherddau, boreuau coffi, cymanfa garolau, arddangosfa coed Dolig, ffair grefftau; fe gynhaliwyd nifer o weithgareddau amrywiol i'n galluogi i roi cychwyn ar y gwaith o drwsio'r adeilad a chael ein tŷ mewn trefn. Os bu ichi fynychu unrhyw un o'n gweithgareddau dros y blynyddoedd dwytha yna diolchwn yn garedig ichi am eich cefnogaeth. Mi fydd gennym nifer o ddigwyddiadau cyffelyb yn dod i fyny yn ystod y tymor sydd o'n blaenau, felly cadwch eich llygaid yn agored amdanynt a dowch i'r cefnogi eto os gallwch chi.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i *Bwyllgor Parchu Pentir* am eu cefnogaeth hwythau ar nifer o achlysuron, yn enwedig am eu gofal o hen fynwent yr eglwys a fu, tan yn ddiweddar, mewn cyflwr go druenus. Bellach mae'r clirio wedi golygu y gall teuluoedd ymweld yn llai trafferddus â beddau eu hanwyliaid a chyn bo hir byddwn yn cynnal digwyddiad hanesyddol i ddysgu mwy am hanes y safle lle bu addoli ers canrifoedd lawer ac mae olion yr hen eglwys i'w gweld o hyd ar dir yr hen fynwent. Mae'n capeli a'n heglwysi yn rhan hanfodol o'n hanes ni fel cenedl a theimlwn yn gryf fel pwyllgor y dylem eu gwarchod i'r cenedlaethau fydd yn ein dilyn. Os oes unrhyw un a diddordeb i gymorthwuo aelodau Pwyllgor Parchu Pentir yn ei gwaith o daculso'r fynwent, byddent yn ddiolchgar dros ben o'r cymorth, mae'nt yn cyfarfod yn Fynwent yr Eglwys ar y pedwerydd Sul o'r mis am 10.30yb.

Os carech chi wneud cyfrniad uniongyrchol i'r gronfa atgyweiri yna cysystwch â Nia (warden) ar 07719 918686 neu Eirwen (Trysorydd) ar 07732 118129. A chadwch olwg am ein gweithgareddau yn y Llais neu ar dudalen Face Book Eglwys St. Cedol.

**Te Hufen**
Cafodd ein Te Hufen ei gynnal brynhawn Sadwrn, 19 o Orffennaf am 2.30yh. Oherwydd y dywydd fe'i cynhaliwyd yn yr Eglwys. Cafwyd prynhawn hwyliog a llwyddiannus iawn.

**Clwb Crefftau**
Bydd Clwb Crefftau Eglwys St. Cedol, sef Dwylo Dawnus yn cyfarfod yn wythnosol ar brynhawn Gwener am 2yh yn yr Eglwys. Dewch a'ch crefft neu dewch i ddysgu crefft newydd dros banad a sgwrs.

**Te Bach**
Mae eglwys St.Cedol yn cynnal ei Tê Bach ar brynhawn Mercher cyntaf or mis am 2 o'r cloch, bydd y Tê Bach nesaf a'r 1af o Hydref 2025 I ddathlu'r cynheaf. Mae croeso cynnes i chwi ymuno a ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

**Raffl Misol**
Rydym yn cynnal raffl o Hamper Misol ar themau gwahanol bob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys. Enillydd yr Hamper ym Mis Gorffennaf oedd Ann yn roddedig gan Mair.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn ei rhodd o'r haperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Gwasanaeth i'ch anifeiliaid anwes**
Bydd gwasanaeth yn cael ei gynnal ar yr 5ed o Hydref 2025 am 2yp yn Eglwys St. Cedol er bydd ein Anifeiliaid Anwes. Bydd croeso i unrhyw berson ddod a'i hanifail anwes i'r gwasanaeth i gael ei fendithio. Gofynnwn bod yr anifeiliad yn cael ei cadw ar dennyn neu mewn basged/gawellt. Rydym yn edrych ymlaen at eich croeshawu gyda'ch ci, cath, cwningen, Bbochdew, llygoden, pysgodyn aur, neu unrhyw anifail arall.

**Gŵyl Coeden Nadolig**
Yn dilyn arddangosfa Coed Nadolig lwyddianus iawn y llynnedd mae Eglwys Sant Cedol, Pentir wedi penderfynu cynnal Gŵyl Coeden Nadolig eto eleni dros benwythnos y 13eg a'r 14eg o Ragfyr, bydd yr Eglwys ar agor yn y prynhawn rhwng 1.30yh a 4yh.

Rydym yn gwahodd clybiau a sefydliadau lleol i gymryd rhan drwy arddangos coeden addurnedig i hyrwyddo eich clwb/sefydliad.

Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch a Nia ar 07719 918686 neu Eirwen ar 07732 118129



# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Organyddion wrth gefn**
Yn anffodus mae ein organydd Geraint Gill yn sâl ers dros flwyddyn bellach a gyrrwn ein dymuniadau gorau iddo ac i Helen ei wraig am wellhâd buan. Yn y cyfamser mae Christine Edwards ac Owain Rhys Morgan o Eglwys Glanogwen Bethesda, Martin Brown pentref Llandygai, capten y tŵr ac organydd y Gadeirlan a'n ficer Gareth wedi chwarae yr organ yn eu tro er mwyn i'r gynulleidfa gael parhau i werthfawrogi cerddoriaeth fyw. Diolch i bob un o'n organyddion dros dro.

**Teithiau Tywys St Tegai**
Fe gofiwch o rifyn mis Gorffennaf fod cyfarfod pen tymor Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen yn cymryd ffurf ymweliad ag Eglwys St Tegai. Ar Orffennaf 16eg, noswaith hyfryd o haf, daeth bron i 40 aelod a ffrindiau i fyny'r adwy ywen i wrando ar rywfaint o hanes yr eglwys a'r fynwent. Canodd y clychau i'w cyfarch. Croesawyd y grŵp gan Ann E. Williams, Warden y Ficer a Rhian Llewelyn Jones cyn iddynt olrain datblygiad yr eglwys o gell St Tegai (bellach o dan Stâd Ddiwydiannol Llandygai) drwy ei sefydliad fel eglwys blwyf Llandegai a gorffen wrth ddisgrifio addasiadau teulu'r Penrhyn yn ystod y 19eg a'r 20fed ganrif. Wrth gwrs, roedd amser i gyflwyno braslun o hanes Archesgob John Williams (John Iorc) un o feibion enwog yr ardal. Dangoswyd sawl bedd diddorol yn y fynwent, gan gynnwys beddau Emilieus Young, rheolwr Chwarel y Penrhyn yn ystod y Streic Fawr a Benjamin Wyatt, a sefydlodd y lein fach gyntaf rhwng y Chwarel a Phorth Penrhyn. Ar ddydd Gwener, Awst 15fed, rhoddwyd croeso unwaith eto i un o Deithiau Rhys Mwyn a drefnwyd ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Castell Penrhyn ac Amgueddfa Lechi Cymru. Erbyn hyn, mae Rhys Mwyn wedi ymweld â'r eglwys chwe gwaith ac yn dotio pob tro wrth weld ymateb ei grwpiau i sbardunau Archesgob John Williams.

**Eglwys Agored**
Fel arfer bydd y cynllun Eglwys Agored yn dod i ben ar ddiwedd hanner tymor Diolchgarwch. Unwaith eto eleni cafwyd ymwelwyr o bob rhan o Brydain ac o'r cyfandir. Bydd yr eglwys yn ailagor ei drysau i'r cyhoedd ar ôl y Pasg 2026 ond wrth gwrs bydd yn agored pan gynhelir unrhyw wasanaeth yn yr adeilad.

**Codi arian**
Cynhaliwyd stondin anrhegion a llyfrau ail-law yng Nghanolfan Glanadda Bangor ar ddydd Sadwrn, Awst 30ain. Aeth yr elw at Gronfa Atgyweirio St Tegai. Diolch i Anne Williams (Anne BT Talybont) am drefnu'r gwerthiant a diolch i'r rhai a helpodd gyda'r gwerthu.



Taith dywys Rhys Mwyn o gastell Penrhyn i Eglwys St. Tegai.

**Y Clochdŷ**
Mae Highlife Rope Access wedi bod yn brysur yn gweithio ar y clochdŷ gan drwsio neu adnewyddu'r pibellau dŵr. Tra'n cyflawni'r gwaith cymerwyd y cyfle i drwsio drws y clochdŷ a'i adfer i'w hen ogoniant. Hwn yw'r prosiect diweddaraf yn ein rhaglen sylweddol o atgyweirio'r adeilad. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu ac yn dal i gyfrannu i'n Cronfa: braf yw gweld ffrwyth yr holl godi arian a'r cynilo dros y blynyddoedd.





Drws y Clochdy ar ôl yr atgyweirio.



Highlife Rope Access wrth eu gwaith ar y Clochdy.

**Dymuniadau Gorau**
Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Pauline Edwards, yr Hen Dŷ Ysgol, sydd yn disgwyl triniaeth. Hefyd adferiad buan i Geraint Gill, ein organydd, sydd yn dioddef o anhwylder ers dros flwyddyn. Llongyfarchiadau i rieni a theulu Delilah Lilibet o Fangor a fedyddwyd ddydd Sul, Awst 24ain.

**Gwasanaethau**
Gobeithir cynnal gwasanaeth Diolchgarwch yr eglwys ym mis Hydref ac un arall i staff a phlant Ysgol Llandygai. Manylion i'w cadarnhau yn y dyfodol agos.

**Ar y Sul**
Mae gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Steffan Alex Evans, Pentref Llandygai, a Hannah Louise Sharpe, Penrhos Drive, Bangor ar eu priodas yn Fferm Hafod, Llanrwst ar y 30ain o Orffennaf. Pob hapusrwydd yn y dyfodol.




SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus



JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)


***Newyddion Hydref i'w dderbyn erbyn 27 Medi.***
***Dyddiad cyhoeddi 16 Hydref.***

# Chwedl a Choel yn Nyffryn Ogwen (6)

## Gan **Howard Huws**

Os ydych chi'n cofio, y tro diwethaf buom yn dilyn hanes y wraig o Dyddyn Barcut, Tregarth, ei bod yn credu i'r tylwyth teg gipio dau o'i phlant hi, a rhoi dau gwlyn o'u heiddo nhw yn eu lle. Dau blentyn oedd wastad yn crïo ac mewn hwyliau drwg, ac nad oedd dim prifio arnynt. Aeth y wraig i ofyn cyngor dewin lleol o'r enw Cadwgan, a dyma ei gyngor o iddi:"Rhaid iti wneud rhywbeth nad wyt ti'n arfer ei wneud", meddai hwnnw. "Rhywbeth hollol wirion, a'i wneud lle gall y ddau blentyn dy weld di. Os na wnawn nhw ddim, yna dy blant di ydyn' nhw: ond os ydyn' nhw'n blant tylwyth teg, mi wnawn nhw wneud neu ddweud rhywbeth na fyddai plant arferol fyth yn ei wneud. Wedyn mi fyddi di'n gwybod."

A'r hyn wnaeth oedd mynd adref a sôn llawer wrth ei gŵr, o flaen y plant, ei bod am fragu cwrw mewn plisgyn wy, ac y byddai'r cwrw'n barod i'w yfed y diwrnod canlynol. Dyna'n union a wnaeth hi heb ddweud gair rhagor am y peth, ond yr oedd y ddau blentyn yn ei gwylio, ac yn sibrwd ymysg ei gilydd:

"Gwelsom fesen cyn derwen,
Gwelsom wy cyn iâr,
Ond erioed o'r blaen fragu mewn plisgyn wy iâr."

A dyma nhw'n chwerthin wrth feddwl am y peth: ond yr oeddent wedi eu bradychu eu hunain trwy ddweud nad plant oeddent, mewn gwirionedd, ond bodau aruthrol o hen: "gwelsom fesen cyn derwen".

'Roedd hynny'n ddigon i gadarnhau i'r wraig nad ei phlant hi oeddent, ac aeth at Cadwgan am ragor o gyfarwyddyd. Dywedodd yntau wrthi i godi cyn yr haul, mynd â'r plant, un dan bob cesail, a'u gollwng i Lyn Cororion; ac erbyn iddi ddychwelyd adref byddai ei gefeilliaid hi ei hun yno, ac wedi prifio'n arw. A dyna'n union a wnaeth hi, a chafodd ei phlant ei hun yn ôl.

Yn ôl fersiwn arall o'r un hanesyn, gofynnodd y wraig gyngor gwrach, a bu i honno ei chynghori i ollwng y ddau blentyn i'r afon. I ddŵr rhedegog, hynny yw, sef rhywbeth na all y tylwyth teg, gwrachod nac ellyllon ei oddef. Ceir hanesion tebyg iawn yn sawl rhan o Gymru, gan gynnwys Beddgelert, a fferm Dyffryn Mymbyr yng Nghapel Curig. Yno cafwyd gwared ar y plentyn tylwyth teg trwy orchuddio rhaw â halen, a'i rhoi ar y tân. Dyna dri pheth arall na all y tylwyth teg mo'u goddef: haearn (fel y gwelsom yn achos y ferch o Lyn Cororion), halen a thân. Yn ehangach fyth, mae llawer i hanes o wledydd ledled gogledd Ewrop am dylwyth teg yn mesur eu hoedran yn ôl tyfiant coed: derwen, yn yr achos hwn.

Eto, heblaw am yr elfennau chwedlonol, mae hen arfer sinistr yn cyfrannu at y chwedl hon, sef cael gwared ar blant yr oedd eu magu'n ormod o drafferth, am ba reswm bynnag. Byddai gwneud i ffwrdd â nhw'n ddistaw bach yn gryn demtasiwn, ac efallai mai tystio i hynny mae'r llecyn o'r enw Llyn Boddi Babis yn ymyl y Felinheli, er enghraifft.

Dyna dylwyth teg Llyn Cororion, felly. Y tro nesaf byddwn yn dal ar drywydd y bodau cymwynasgar a bygythiol hyn, nid mewn llyn nac ar wyneb y ddaear, ond oddi tani.

# GwyrddNi






**Mae prosiect Ysgolion Creadigol, cynnig newydd gan y mudiad gweithredu hinsawdd gymunedol GwyrddNi, wedi bod yn cefnogi pobl ifanc yn Nyffryn Ogwen i gyfathrebu'n greadigol am newid hinsawdd.**

Ym mis Tachwedd llynnedd, gwnaeth GwyrddNi alwad agored am artistiaid, beirdd, adroddwyr straeon a phob math o ymarferwyr creadigol a oedd eisiau cydweithio hefo disgyblion ysgol i gyfleu eu negeseuon hinsawdd. Nid oedd unrhyw friff penodol – byddai'r bobl ifanc yn cyfweld pob ymgeisydd ac yn penderfynu gyda phwy yr oeddent eisiau gweithio, yna'n arwain y prosiect eu hunain. Roedd hyn yn golygu nad oedd gennym unrhyw syniad go iawn pa fath o waith creadigol y byddem yn ei gael!

Penderfynodd disgyblion blwyddyn 7 ac 8 eu bod eisiau gwneud “sblash” mawr – a dyna pam eu bod wedi dewis mynd a'u neges i Garnifal Bethesda – gan berfformio dramâu byr a chreu “fflôt” trawiadol i'w gario yn y parêd. Gwariodd y disgyblion bythefnos yn addurno eu llusernau a banneri hefo Manon Prysor. Gwelsom bysgodyn enfawr yn llawn plastic, a hefyd *Spongebob* a *Patrick* yn dod i gwyno am ansawdd eu cartref! Bu'r bobl ifanc hefyd yn ysgrifennu ac ymarfer eu dramau dan arweiniad yr actores Angharad Llwyd.

Wrth gynllunio daeth hi'n amlwg bod y bobl ifanc yn poeni ynghylch llygredd, gwastraff a difrod i'r byd natur, môr ac afonydd eu hardal leol – a'u bod eisiau codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd gwneud rhywbeth.

“Mae o'n warthus faint o blastig mae pobl yn lluchio i'r môr,” meddai Lloer, blwyddyn 8. “Dwi'n gobeithio bydd pobl yn sylweddoli faint o ddrwg ydi hyn i'r byd ac yn trio newid y penderfyniadau maen nhw yn eu gwneud.”

“Dwi'n gobeithio bydd pobl o'r gymuned yn dysgu parchu'r byd yn well,” dywedodd Nêst o flwyddyn 8.

Cafodd y disgyblion syrpreis bach arall cyn y diwrnod mawr – roedd *Heno* eisiau gwneud pishyn eu gwaith, a chafodd rhai ohonynt y cyfle i ddweud eu dweud o flaen Gymru gyfan!

Ewch draw i sianel YouTube GwyrddNi neu'r wefan (www.gwyrddni.cymru) i wylio fideo am y broses neu i ddysgu mwy.

Fel rhan o brosiect Ysgolion Creadigol GwyrddNi, mae disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle wedi ysgrifennu tair cân wreiddiol hefo Gai Toms, ac wedi creu *Llyfr Gwyrdd Nantlle* (y gwrthwenwyn i neges Llyfr Glas Nebo); tra bu disgyblion Ysgol Dolbadarn yn creu darn celf weledol hefo Katie Ellidge a Femke van Gent yn dangos eu gweledigaethau am ddyfodol disglair i'r Dyffryn. Mae rhywbeth cyffrous ar y gweill yn Ysgol y Moelwyn hefo Buddug Roberts, hefo mwy i ddod yn fuan!






***Mae GwyrddNi yn fudiad gweithredu hinsawdd leol sy'n cefnogi cymunedau i fod yn fwy gwyrdd, gwydn a chynaliadwy. Yn Nyffryn Ogwen, mae GwyrddNi yn cael ei ddarparu gan Bartneriaeth Ogwen, lle maent yn cefnogi sawl prosiect megis Grŵp Ysgrifennu Diosg, Gerddi Ffrancon, Mapio Mwsog a llawer mwy. Trwy eu gwaith gydag ysgolion, mae GwyrddNi hefyd yn gweithio hefo ysgolion cynradd yr ardal i ddysgu plant am eu cynefin a'r hinsawdd ac am ddatrysiadau posib, ac yn eu cefnogi i ddod a'u syniadau yn fyw. Gallwch ddysgu mwy neu gymryd rhan drwy gysylltu hefo Chris – chris@ogwen.org / 07766 793 945.***

# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts ac aelodau o'r côr





Aelodau Côr y Penrhyn yn y ddistyllfa wirodydd yn Abergwyngregyn yn ddiweddar ar achlysur cyflwyno elw'r cyngerdd a gaed gan dri chôr yn y Gadeirlan ym Mangor beth amser yn ôl.



Yr aelodau mwayaf heini wedi llogi beiciau ar Ynys Toronto. Sylw un wag oedd, "gobeithio bydd gynnyn nhw ddigon o wynt i ganu ar ôl bod ar eu beicia'!

### Perfformiadau Lu

Bu'r haf hwn eto'n un eithriadol o brysur i Gôr y Penrhyn a rhaid canmol yr hogia am eu hymroddiad yn mynychu cynifer o ymarferion a chyngherddau. Ym mis Awst bu perfformiadau yn Nistyllfa Aber, pryd y cyflwynwyd siec ar ran Côr y Penrhyn, Lleisiau Mignedd a Chornarfon i achos ymchwil i gancr ardal Llanfairfechan.

Perfformiodd y côr hefyd ym Metws y Coed (20 Gorff), yn Llandudno (24 Gorff) a Chlwb Criced a Bowlio, Bethesda (17 Awst). Roedd y cyngherddau a'r gweithgarwch hwn ar ben yr ymarferion i baratoi am y daith i Ganada.

### Canada 2025

Hwn oedd y trydydd tro mewn cyfnod o ryw ddeg mlynedd i Gôr y Penrhyn gael gwahoddiad i berfformio yng Ngŵyl Cymry Gogledd America. Prifddinas Canada sef Ottawa, oedd man cyfarfod yr ŵyl eleni ond manteisiodd y côr ar y cyfle i ganu yn Niagara Falls ac yn Toronto cyn mynd ymlaen i Ottawa. Bydd yr atgofion am y daith hon yn aros yn hir yng nghof y rhai a gafodd y fraint o fynd i'r ŵyl, gan gynnwys y partneriaid â'r rhai a aeth yno fel cefnogwyr.

Canodd y côr Nkosi Sikelele a Tshotolosa y ddwy gân o Dde Affrica yn Niagra a hynny ar deras yn edrych drosodd ar y rhaeadr enfawr. Ymhlith eu cyflwyniadau eraill perfformiwyd *Y Ddau Wladgarwr, Benedictus, Pererin Wyf* ac *Yma o Hyd.*

Yn ninas gosmopolitan Toronto lle cafwyd cyngerdd yn y brif eglwys gadeiriol perfformiodd y côr nifer o ddarnau poblogaidd o'u rhaglen gan gynnwys ***Anfonaf Angel*** gan Robat Arwyn, ***Ave Verum*** o waith Mozart ac ***O Gymru*** gan Rhys Jones.

### Caleb yn taro deuddeg

Yr unawdydd efo'r côr yn y cyngerdd hwnnw oedd Caleb Rhys o'r Gerlan. Mae Caleb yn meddu ar lais bariton cyfoethog ac mae wedi bod yn derbyn hyfforddiant lleisiol yng Ngolegau Cerdd Bangor, Lerpwl a Manceinion. Mae pawb sydd wedi clywed Caleb yn canu yn awchus i glywed mwy ganddo a gallwn fod yn falch o dalent mor wych.

### Owain Arwel yn unawdydd ac yn arweinydd

Mae Côr y Penrhyn yn dra ffodus bod ganddyn nhw sawl unawdydd i alw amdanynt pan fydd angen amrywio'r cyflwyniad. Mae John Outram a Raymond Roberts yn gwasanaethu'n rheolaidd ond gall y côr alw am wasanaeth yr arweinydd am gyfranaid mewn unrhyw le. Mae Owain Arwel yn meddu llais tenor all lenwi unrhyw neuadd a bu hynny'n wir yn ninas Toronto.

### Ottawa

Gobeithiwn gynnwys hanes cynghrddau Ottawa y mis nesaf.



Y côr yn pertfformio ar un o'r terasau sy'n edrych dros raeadr mawr Niagra yn ystod eu taith i Ganada ar gyfer Gŵyl Cymry Gogledd America yn Ottawa Awst 2025.


## GWERSI PIANO

- Tiwtor Piano arbenigol, cyfeillgar, amyneddgar, cymwysedig a chanddo dros 40 mlynedd o brofiad hyfforddi.
- Prisiau rhesymol a thalu ar gychwyn bob gwers nid am wythnosau ymlaen llaw.
- Ni chodir tâl am absenoldeb oherwydd salwch.
- Rhiant neu ofalydd cyfrifol yn bresennol ym mhob gwers.
- Anogir bob disgybl i sefyll arholiadau'r Associated Board. Arholiadau ddim yn orfodol i oedolion.
- Gwersi trwy gydol y flwyddyn yn ddewisol (yn cynnwys rhai gwyliau ysgol). Caniateir gwyliau ar unrhyw bryd arall trwy drefniant ymlaen llaw.
- Ni dderbynir plant sy'n iau na 6 mlwydd oed.

Cysylltwch â: **Gerwyn Llwyd, FVCM, LWCMD,** ar Bethesda **01248 602901**

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Diolch**
Hoffai Elin Haf Taylor, merch Amanda ac Andrew Taylor, gynt o Dal y Cae, Tregarth, a Dylan Panzera Madden, mab Cerys a Brett Madden o Fae Colwyn, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am eu caredigrwydd wrth ddathlu eu priodas ar Fai 24 yn Eglwys Sant Tegai, Llandygai.



**Dathlu yn Pant Teg**
Llongyfarchiadau i Cerwyn Roberts, Pant Teg, mab Catrin Doyle a Brian Roberts am ei lwyddiant yn graddio o Brifysgol Bangor. Da iawn ti.

**Llongyfarchiadau** hefyd i bawb o'r ardal am roi o'u gorau yn eu arholiadau ysgol a choleg gan ddymuno y gorau i chi i'r dyfodol. Rhowch wybod i ni ar gyfer cyhoeddi eich llwyddiant yn y Llais Mis Hydref.

Mae Gwenno Angharad Roberts, Fferm Dob, wedi llwyddo yn ei arholiadau Lefel A a bydd yn cychwyn ar gwrs Deintyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd ym Mis Medi. Da iawn tithau Gwenno.

**Llyfr y flwyddyn**
Rydym mor falch o gael y newyddion fod Gwenno Glyn, Bwthyn Cororion,wedi dod i'r brig yng Nghystadleuaeth llyfr y flwyddyn yng nghategori ffuglen gyda'i nofel gyntaf 'V a fo' ac am ennill gyda'i chyfrol gystadleuaeth Cymru 'Barn y bobol'. Ardderchog Gwenno. Disgwyl am y gyfrol nesa rwan!

**Llwyddiant Cerddorol**
Llongyfarchiadau i Gwyn Owen, mab Helen a Gwilym Owen, 9 Tal y Cae, ar ei swydd newydd yn aelod o Gerddorfa Philamonic y BBC ym Manceinion. Gwyddom ers blynyddoedd am ei ddawn fel cerddor, yn chwarae y trwmped, a dymunwn y gorau iddo i'r dyfodol.

**Cydymdeimlad**
Yn ystod Mis Mehefin daeth profedigaeth i ran Christine, Emyr, Tomos a Huw Morris Jones, Lliwedd, Tal y Cae, pan fu farw mam Christine yn ei chartref yn Rhyduchaf, ger y Bala. Cydymdeimlwn gyda chi yn eich profedigaeth.

**Geni**
Llongyfarchiadau i David a Mari, 41 Ffordd Tanrhiw ar enedigaeth merch fach, Mili Efa ar Awst 26ain. Wyres fach i Dianne a Tommy, ac i Rhian a Gareth.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Haf a Daniel a briodwyd yng Ngwesty Carreg Brân ar 18fed o Orffennaf. Mae Hâf yn ferch i Delyth ac wyres i Sulwen a Goronwy, Bro Syr Ifor. Mae'r ddau yn byw ar Ynys Môn gyda'i mab bach Noa.

**Yn yr Ysbyty**
Anfonwn ein cofion at Eleri Fever, Bro Syr Ifor, a Pete Doyle, hefyd o Fro Syr Ifor sydd yn Ysbyty Gwynedd. Gwellhad buan iddynt. Hefyd yn Ysbyty Gwynedd ers cryn amser mae Mona Williams, Lynona, gobeithio y caiff ddod adref yn fuan.

**Meddyg**
Llongyfarchiadau i Nick Johns, mab Owenna, Ffordd Tanrhiw a Stephen, sydd wedi graddio fel meddyg ym Mhrifysgol Hull, York. Pob hwyl iddo yn ei waith yn Ysbyty Gwynedd.

## Dathlu – 50fed penblwydd y Cylch Meithrin

**(parhad o'r dudalen flaen)**
Braf oedd cael croesawu Gwenllian Lansdown Davies, Cyfarwyddwr Cylchoedd Meithrin Cymru i'r dathliad, a hithau wedi teithio o Sir Drefaldwyn i fod yn rhan o'r o'r diwrnod.

Nid dathlu er mwyn gwneud arian oedd y pwrpas ond da ydi cyhoeddi i'r Cylch lleol gael cyfraniad o £500 ar ddiwedd y diwrnod.

Cofiwch fod y Cylch ar agor o Ddydd Llun tan Ddydd Gwener yn y Ganolfan Gymdeithasol a bydd Courtney a'r ddwy Catrin yn falch iawn o groesawu y plant bach newydd fydd yn cychwyn y mis yma. Diolch o galon i Sophie fu'n arwain y Cylch tan ddiwedd Mis Gorffennaf am ei gwaith yn ystod y cyfnod diweddar.

Mae'r diolch mwyaf i drigolion yr ardal am ymateb mor rhagorol i'r diwrnod ac i wneud yr achlysur yn un mor hapus a llewyrchus. Ymlaen rwan i'r 50 mlynedd nesa!





**CHRIS GRIFFITHS CYF**

**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**



**18 Carreg Felin**
**Llandegfan**
**Ynys Môn**
**LL59 5YB**

**☎ 01248 713 369**
**neu 07813 455653**

**Mark Davies**
07447804110

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD
MD Caravans

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

**mark@mdcaravans.cymru**
MCEA

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
Cyrsiau Byr a Datblygiad Proffesiynol
Short Courses and Professional Development

**Ystyried dysgu rhywbeth newydd?**
- Dysgu Cymunedol
- Uwchsgilio a Datblygiad Proffesiynol
- Cyrsiau pwrpasol i fusnesau
- Darlithoedd cyhoeddus

**Cysylltwch!**
cyrsiaubyr@bangor.ac.uk
01248 382 875
https://www.bangor.ac.uk/cy/cyrsiau-byr-a-dpp

**Profedigaeth**
Ar Fehefin 28ain, yn dawel ym Mhlas Ogwen, bu farw Menai Jones, Erw Faen yn 92 oed. Roedd pawb wedi hen arfer gweld Menai yn brasgamu ar ei theithiau cerdded o gwmpas y fro a gyda grwpiau cerdded. Roedd bob amser yn hwyliog a gwên fawr wrth gyfarch pawb. Roedd yn wraig hynod brysur ac yn gallu troi ei llaw at amryw o bethau. Anfonwn ein cydymdeilad at ei thri mab a merch Arfon, Glyn, Selwyn a Marian a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

**Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam**
Daeth Gwenno Roberts, Fferm Dob i'r brig yn yr Eisteddfod yn Wrecsam yn y gystadleuaeth cyfeilio ar y delyn i ddatgeinydd. Llongyfarchiadau mawr am dderbyn y wobr gyntaf Gwenno.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Bu Cangen Tregarth ar eu trip blynyddol ar Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 5 yn ardal y Bala. Cyn cyrraedd y Bala cafwyd cyfle i ymweld a Amgueddfa y carcharorion rhyfel Gwyddelig yn y Fron Goch. Cawsom gyfle i glywed am yr holl hanes diddorol am y safle yn Frongoch ar gychwyn yr ugeinfed ganrif gan Alwyn Jones,a pha mor brysur a phwysig yn hanes yr Iwerddon oedd y Frongoch yn y cyfnod hwnnw. Drwy gyfrwng sgwrs, ffilm, lluniau a'r arddangosfa ei hun cawsom gip o'r cyfnod a deall pwysigrwydd Carchar Rhyfel Frongoch yn hanes yr Iwerddon maes o law. Mae ein diolch i Alwyn Jones yn ddifesur am ei waith mawr yn sefydlu'r Amgueddfa sydd yn werth i'w gweld. Ewch yno i weld drosoch eich hunain drigolion DyffrynOgwen!

Yna, aed ymlaen i'r Bala gyda chyfle i gael pryd o fwyd blasus yn Plas yn Dre a chyfle wedyn i siopa a chrwydro cyn cychwyn am adra. Diolch o galon i Christine am drefnu ac i Myfanwy hefyd am ei gwaith yn edrych ar ein holau i gyd ar y diwrnod.

Llongyfarchiadau mawr i Margaret, Jen Margiad a Myfanwy am eu gwaith cywrain fel rhan o dîm Merched y Wawr Arfon yn y Sioe yn Llanelwedd eleni. Llwyddodd Margaret i gael gwobr am ei gwaith Celf gan ddefnyddio eitemau wedi'i hail-gylchu! Creodd Jen fap lliwgar ac artistig o gaeau o gwmpas ei chartref Tan Garth, gan nodi eu henwau. Bu Myfanwy yn coginio pei flasus iawn fel rhan o Dim Arfon. Llongyfarchiadau genod. Diolch am gynrychioli Cangen Tregarth a Rhanbarth Arfon.

Bu Myfanwy yn brysur dros ben ar Bwyllgor Cenedlaethol Merched y Wawr, yn ysgrifennydd diwyd ac mae ein diolch iddi o waelod calon am roi cymaint o'i hamser a'i sgiliau yn y gwaith. Diolch Myfanwy ar ein rhan ni i gyd fel Cangen.

Derbyniwyd rhodd o £100 yn ddiolchgar iawn gan Fred Buckley, Maes Ogwen, er cof am ei briod, Elizabeth Buckley fu farw'n ddiweddar ac wedi bod yn aelod annwyl a hwyliog dros ben o'r gangen yma yn Nhregarth. Byddwn yn cofio'n hir am ei hiwmor a'i chyfeillgarwch yn y gangen. Diolch o waelod calon Fred.

Bydd y Gangen yn wynebu tymor newydd Nos Lun, Medi 8 yn Festri Capel Shiloh Newydd gyda noson o 'Frethyn Cartref ', am 7.30 ac yna ar y Dydd Llun cynta o bob mis i ddilyn. Dewch yn llu i fwynhau sgwrsiau difyr a chwmniaeth llawn hwyl a difyrwch!

## Capel Shiloh Newydd

**Capel Shiloh Newydd**
Diolch i bawb sydd wedi dod draw am baned a sgwrs ar fore Gwener yn ystod Mis Awst. Er na fu oedfaon yn ystod y mis braf oedd eich gweld chi i gyd. Braf yw cyhoeddi fod 'Drws Agored' y capel wedi rhoi £50 ar gyfer Dathlu 50 mlynedd y Cylch Meithrin lleol.

Roedd yn dda iawn cael cwmni Islwyn Evans, Llanfairfechan, yn ol atom wedi gwaeledd a diolch i Manon am ddod yn gwmni iddo. Mae Mona Williams heb fod yn dda ac rydym yn methu ei chwmni. Bu yn Plas Ogwen, ond bu raid iddi ddychwelyd i Ysbyty Gwynedd. Dymunwn y gorau iddi.

**Oedfaon**
Dyma'r oedfaon am yr wythnosau nesa a hynny am 5 o'r gloch.
Medi 21 – Olaf Davies, Llandegfan
Medi 28 – Gwyndaf Jones, Bangor
Hydref 5 – Glyn Tomos, Caernarfon
Hydref 12 – Dr Ian Morris
Hydref 13 am 6 o'r gloch, Gwasanaeth Diolchgarwch, Dr Ian Morris
Hydref 19 – R. Owen Jones, Gaerwen
Hydref 26 – Nerys Griffiths, Caernarfon

# Diolch (gan deulu Annette Bryn Parri)

Dymuna Heledd, Ynyr, Bedwyr, Hannah, Olwen, Marina a'u teuluoedd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Annette.

Bu'r holl negeseuon yn gysur ac yn gymorth i'w cynnal drwy'r cyfnod anodd hwn. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at sefydlu Ysgoloriaeth er cof am Annette Bryn Parri.

Diolch yn arbennig i'r parchedig John Pritchard am ei ofal a'i gynhaliaeth ac i'r ymgymerwyr, Dylan Griffith am wasanaeth personol a gofalus. Cyflwynwyd teyrngedau hyfryd i Annette yn yr angladd gan Cefin a Rhian Roberts ac Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa), diolch o galon iddynt.

Gareth Williams
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Natasha

Ogwen
Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

L. STURRS
A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

# CHWILAIR



## Deiseb Heddwch Menywod Cymru (Rhan 2)

Yn y Chwilair mis yma MAE ENW DEUDDEG O FERCHED o Ward Gymunedol Llandygai a arwyddodd Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru yn 1923 i'w darganfod.  Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ac yb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 26 Medi. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

**Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**
Rhai wedi anfon enw Huw Jones fel ateb, ac roedd M. a L Jones wedi enwi Ieuan J Williams ddwy waith.

**Dyma atebion Chwilair Gorffennaf:-**
David Richards; David Thomas; Erasmus Parry; Evan Evans; Henry Owen; Ieuan J. Williams; John Jenkins; John Payne; Lewis Owen; Rhys Parri; Robert Morris Jones; William Lloyd.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | A | A | A | N | N | H | U | G | H | E | S | W | F | H | R | I | E | J | L |
| E | J | E | N | N | I | E | G | R | I | F | F | I | T | H | S | C | M | B | V |
| R | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | S | D |
| I | D | A | I | S | Y | P | A | R | R | Y | W | H | U | Z | M | X | V | M | A |
| D | S | M | A | I | L | L | I | W | H | T | E | B | A | Z | I | L | E | A | D |
| W | D | J | N | A | P | A | U | Q | S | U | S | O | F | R | P | Y | Q | I | Z |
| E | G | R | A | H | C | U | S | N | M | W | N | O | Y | R | I | A | S | L | Z |
| N | U | T | F | N | D | X | A | M | U | P | W | R | H | C | Q | H | W | L | E |
| J | H | O | Y | E | E | V | E | G | A | E | O | M | H | E | P | T | T | I | C |
| O | B | B | C | U | E | H | U | J | P | I | L | T | M | I | V | V | D | W | C |
| N | B | B | F | N | R | F | U | O | G | J | L | V | I | I | R | R | X | A | I |
| E | M | H | E | T | T | O | S | G | K | O | P | L | W | R | C | M | K | D | C |
| S | B | L | O | R | C | X | V | R | H | Y | H | S | I | T | M | R | E | L | F |
| Y | L | J | D | Z | H | B | C | W | O | E | S | C | R | W | A | I | X | I | N |
| E | I | L | X | J | J | M | B | W | T | E | S | X | M | D | E | X | K | T | F |
| U | P | C | Q | Y | O | I | L | F | E | R | Z | Q | R | O | C | C | T | A | D |
| G | S | H | T | I | F | F | I | R | G | N | E | L | L | E | Y | R | A | M | W |
| S | A | G | N | E | S | O | W | E | N | L | Z | E | B | E | A | J | K | R | T |
| C | F | L | O | R | E | N | C | E | M | R | A | Y | J | O | N | E | S | L | G |
| N | L | R | V | O | G | J | P | W | P | G | S | O | W | J | J | Q | U | L | F |

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:-** Judith Hughes, Llangoed; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwen Roberts, Rhosmeirch; Rosemary Williams, Tregarth; Dewi Lewis-Jones, Llandegfan; Gwen Davies, Tanysgrafell; Carys Parry, Caerhun; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Doris Shaw, Bethesda; Huw Williams, Erw Las; Barbara Anne Conlan, Glanogwen.
**Enillydd Gorffennaf oedd:-** Doris Shaw, 2 Arafa Don, Stryd Fawr, Bethesda. LL57 3AR


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Natur o'n Cwmpas

## Y Dderwen

Mae'n siŵr mai'r dderwen yw'r goeden fwyaf cyfarwydd yma yng Nghymru, a hynny am sawl rheswm gan fod iddi nodweddion amlwg – ymylon clustennog ei deilen; ei ffrwyth, sef y fesen, mewn cwpan; ei rhisgl darniog, garw; a'i boncyff trwchus a chadarn. Fodd bynnag, drwy'r byd mae tua 500 o wahanol rywogaethau, ac o ran eu nodweddion maent yn medru amrywio'n arw.

Mae'n debyg bod y dderwen wedi ymddangos yn gyntaf tua 6,000CC (8,000 o flynyddoedd yn ôl) ar y tir yr ydym heddiw yn ei adnabod fel Cymru, mewn cyfnod pan oedd daear Prydain yn rhan annatod o dir Ewrop yn dilyn enciliad olaf y rhew ar ôl Oes y Iâ.

Dwy rywogaeth a welir yn ein hardal ni – derwen mes di-goes (*Quercus petraea; sessile oak*). a derwen mes coesynnog (*Quercus robur; pedunculate oak, English oak*). Mae'n drueni nad oes enwau llai technegol ar y ddwy. At ei gilydd, mae'r ddwy'n weddol debyg, ac nid yw'n hawdd gwahaniaethu rhyngddynt heb fynd yn agos. Cafodd y dderwen mes di-goes ei henw oherwydd bod ei mes ynghlwm wrth y brigau, yn wahanol i'r dderwen mes coesynnog sydd â'r mes ar goesynnau a ddaw o'r brigau. Mae coesynnau dail y dderwen mes di-goes yn hirach, a'i boncyff a'i changhennau'n tueddu i fod yn sythach.

Yr ucheldir yw cynefin y dderwen mes di-goes ran amlaf, â'i gwreiddiau mewn pridd tenau, caregog, gyda'r dderwen mes coesynnog yn fwy bodlon ei byd ar y gwastadeddau. Gall derwen fyw i fod dros 500 mlwydd oed.

Pren caled yw'r dderwen, un neilltuol o gadarn, a thrwy'r canrifoedd bu'n ddefnyddiol i sawl diben. Dyma rai: adeiladu tai a llongau; gwneud dodrefn; tanwydd – coed tân a golosg; pyst ffensio; casgenni gwin a chwisgi; a thannin o'r rhisgl ar gyfer cyweirio crwyn mewn tanerdai i wneud lledr.



derwen mes coesynnog



derwen mes di-goes

Roedd Dyffryn Ogwen wedi ei orchuddio â choed ar un adeg, gyda'r derw'n amlwg iawn, a hyd heddiw mae rhan sylweddol o'r ardal dan goed derw. O ddilyn afon Ogwen o Bont y Ceunant yng ngheg Nant Ffrancon i lawr hyd at Bont Pen y Darren yn Aberogwen – 'O Dy'n y Maes i donnau môr' chwedl Caradog Prichard – mae coed derw'n bresennol gydol y daith. Mae'r coed yn teneuo yr ochr isaf i Barc Meurig, efo ond ychydig goed unigol ar wastadedd y dolydd – Dol Ddafydd, y Ddol Fawr, y Ddol Goch a'r Ddol Las. Yna, maent yn tewychu peth cyn cyrraedd Pont Coetmor ar gwr Bryn Bela, gan ymledu islaw'r bont i ffurfio Coed y Dinas ar y naill ochr i'r afon, a Pharc y Moch ar y llall. Mae'r coed yn ddi-dor o bobtu'r afon o Bont y Pandy i lawr hyd Goed Cochwillan ac ymlaen drwy Barc y Penrhyn i Aberogwen.

Mae'r enw Parc y Moch yn cyfeirio at y coed derw'n benodol oherwydd am ganrifoedd lawer cedwid moch yn y parc i'w pesgi ar fes. Er bod mes yn medru bod yn wenwynig i wartheg a cheffylau, roeddynt yn borthiant iach a hwylus i fagu moch. Awgrymwyd bod 'Hob y deri dando', y gân werin o'r de, yn cyfeirio at gadw moch mewn derwlwyn, sef coedwig dderw, a bod 'hob y deri' yn cyfeirio at gig y moch a besgwyd ar fes', a 'dando' yn cyfeirio at yr arfer o hongian y darnau cig ar fachau o drawstiau nenfwd y gegin, sef dan y tô.

Mae rhai enwau tai yn ein hardal sy'n cyfeirio at goed derw – Bryn Derwen, Bryn Derwen Bach, Bryn Derwas, Bryn Derlwyn – ac enw un o byllau afon Ogwen rhwng Pont Coetmor a Phont y Pandy yw Llyn y Dderwen Gam.

---

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

## Cyngor Cymuned Llandygai

***Diolch i Dîm Llwybrau Cyngor Gwynedd***

Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno diolch o galon i dîm Llwybrau Cyngor Gwynedd am eu gwaith diweddar o drwsio'r bont a gwella'r llwybr ar y rhostir yn Mynydd Llandygai. Mae'r atgyweiriadau hyn wedi gwella diogelwch a mynediad i drigolion lleol a gweithgareddwyr yn yr ardal. Rydym yn gwerthfawrogi eu hymateb cyflym a'u gwaith effeithiol er mwyn cefnogi'r gymuned.

**Coedwig Parc Y Bwlch**

Mae Cyngor Cymuned Llandygai wedi bod yn trafod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynghylch y gwaith torri coed diweddar ym Mharc y Bwlch.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau bod cytundeb cludiant y pren bellach wedi'i gwblhau. Fel rhan o'u cefnogaeth i'r gymuned, mae CNC yn cadw tua 100 tunnell o bren i'w werthu'n lleol drwy lwyfan 'Sell to Wales' Llywodraeth Cymru ym mis Hydref, gan roi cyfle i drigolion Mynydd Llandygai brynu pren tân.

Cynlluniwyd y gwaith torri coed nesaf ger mynediad y coedwig i ddechrau ym mis Hydref 2026, er mwyn osgoi tymor bridio'r wiwer coch.

O ran pryderon ynghylch cyflwr y ffordd drwy'r goedwig, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod y graean bras a ddefnyddiwyd i atgyweirio'r ffordd yn gallu gwneud cerdded yn anodd neu ansicr. Mae eu tîm peirianneg sifil wedi cael cais i archwilio a gwella'r sefyllfa. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn atgoffa cerddwyr nad yw'r ffordd hon yn lôn gerdded gyhoeddus ac yn annog gofal. Bydd Cyngor Cymuned Llandygai yn parhau i gydweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod pryderon y gymuned yn cael eu clywed a'u hystyried.

Os oes gennych unrhyw bryderon yr hoffech eu codi, cysylltwch â'r Cyngor Cymuned ar: **cyngorllandygai@ogwen.org**

DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

# Einir yn llafar am y Llyfrau

Mae merch "brysur" o Fethesda wedi'i phenodi'n gydlynydd llyfrau llafar Cymraeg Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru.

Mae Einir Wyn Williams yn olynu Patsy West sydd wedi ymddeol ar ôl treulio saith mlynedd gyda'r Gymdeithas.

Mae gan Einir nam golwg Stargardts sy'n golygu ei bod hi angen peiriannau arbennig i ddarllen print man.

Cyn ymuno a'r Gymdeithas bu'n gweithio i'r Swyddfa Bost am 27 mlynedd.

Meddai Einir: "Fe rois i'r gorau i'r swydd honno oherwydd d'oeddwn i ddim yn medru dweud y gwahaniaeth rhwng y pres; y nodau a lliwiau.

Mae'n briod a Chris ac yn fam i Enoc, 18 a Begw, 14 ac yn llysfam i Cari, 18. Mae'n byw yn Gerlan, Bethesda.

Mae hi wrth ei bodd gyda'i swydd newydd.

Meddai: "Dwi wedi arfer gweithio yn y Swyddfa Bost ynghanol pobol. Dwi'n hoffi gweithio fel tîm yn helpu'n gilydd.

Tan yn ddiweddar nid oedd Einir yn gwybod am fodolaeth canolfan adnoddau Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru ym Mangor tan iddi gyfarfod y prif weithredwr, Steven Thomas, ym Methesda.



**Einir yn ei gwaith yng nghanolfan adnoddau Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor**

Meddai: "Yna fe ddois i yma i'r ganolfan a chael offer i'm helpu i goginio a lampau bach."

Hefyd yn y ganolfan mae stiwdio recordio GWRANDO ar gyfer recordio llyfrau llafar a phapurau bro.

Fel cydlynydd llyfrau llafar y Gymdeithas, Einir sy'n dewis y llyfrau i'w recordio ar gyfer llyfrau llafar.

Meddai Einir: "'Da ni yn dewis llyfrau mae 'na alw amdanyn nhw; llyfrau sydd wedi ennill yn yr Eisteddfod neu'n sy'n llyfr y flwyddyn.

"Da ni yn cynhyrchu 24 o lyfrau llafar bob blwyddyn; tri chylch gwahanol; wyth llyfr ymhob cylch.

"Mae 'na bedwar llyfr i oedolion a phedwar i blant ymhob cylch; plant dan saith oed a dros saith ac i ddysgwyr."

Y Gymdeithas sy'n cynhyrchu'r cloriau ac yn dosbarthu'r llyfrau llafar i 22 o lyfrgelloedd trwy Gymru.

Meddai Einir: "Da ni'n cynhyrchu'r llyfrau llafar fel CDs, MP3 ac USBs ac mae'n bosib eu benthyg drwy gynllun Borrowbox yn y llyfrgelloedd trwy eu llawrlwytho."

"Mae'r darllenwyr sy'n actorion yn bennaf dod yma i'n stiwdio GWRANDO i ddarllen y llyfrau a recordio gyda'n peiriannydd sain, Ieuan Clwyd Davies, sy'n golygu'r recordiad. Wedyn dwi'n gwrando a phrofi'r darlleniad i weld os ydio'n gywir.

Mae Einir yn gweithio dau ddiwrnod i'r Gymdeithas ac fel cynghorydd sir weddill yr wythnos ar ôl cael ei hethol yn gynghorydd sir Plaid Cymru dros ward Gerlan ym Methesda bedair blynedd yn ôl.

Mae croeso i unrhyw un argymell hoff lyfr neu lyfrau i gael eu recordio fel llyfr llafar drwy gysylltu ag Einir 01248 353604 neu gwrando@nwsb.org.uk

# Annog beicwyr i fod yn fwy ymwybodol o reolau diogelwch ffyrdd

Mae Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru yn annog beicwyr i fod yn fwy ymwybodol o reolau diogelwch y ffordd ar gyfer palmentydd a lonydd beicio.

Daw'r apêl yn dilyn cynnydd yn nifer yr achosion o bobl dall yn cael eu taro gan feicwyr.

Mae beiciau – a beiciau a sgwteri trydan – eisoes wedi'u gwahardd rhag defnyddio palmentydd yn ôl y Ddeddf Priffyrdd.

Ond mae'r Gymdeithas eisiau tynnu sylw hefyd at gwynion gan y deillion nad ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar hyd palmentydd a lonydd beicio.

Mae'r elusen o Fangor, Gwynedd yn cynrychioli deillion a phobl sy'n byw gyda nam golwg gan eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl.

Mewn un achos diweddar – a ddigwyddodd ar un o strydoedd tref yn y Gogledd – cafodd dyn dall ei daro gan feic trydan a'i anafu.

Dywedodd y dyn – nad yw am gael ei enwi – fod y digwyddiad wedi ei ysgwyd.

Meddai'r dyn: "Roeddwn i'n cerdded ar y pafin gyda fy nghi tywys pan ddôth y beic o'r cefn a tharo fy mraich.

"Roeddwn i newydd dynnu fy siaced weladwy ac yn ei dal hi yn fy llaw pan ddigwyddodd o.

"Dwedais: 'Be ti'n wneud? A dwedodd hitha' yn Saesneg: 'I rang my bell but you didn't get out of the way!"

Meddai'r dyn: "Clywais i'r gloch ond roedd 'na gymaint o sŵn ceir ac ati ar y stryd. Hefyd d'oedd gin i ddim syniad o ba gyfeiriad oedd y gloch yn dod.

"Ti ddim yn disgwyl i rywun ddod y tu ôl iti felna ar feic yn enwedig ar y pafin!"

Dywedodd ei fod wedi dychryn yn arw oherwydd y digwyddiad a bod ymateb y ddynes wedi bod yn ffiaidd er fod ganddo ei gi tywys.

Dywedodd prif weithredwr CDGC, Steven Thomas: "Rydym yn cyflwyno apêl gref i seiclwyr: peidiwch â seiclo ar balmentydd, a chymrwch fwy o ofal wrth basio pobl ar lwybrau beicio sy'n cael eu rhannu.

"Mae palmentydd wedi'u cynllunio ar gyfer cerddwyr, ac mae seiclo arnynt yn medru achosi niwed i bobl – yn enwedig pobl sydd â nam ar eu golwg – a'u rhoi mewn perygl difrifol".

# Ennill cystadleuaeth £1,500 gan Tesco!

Mae Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru wrth ein boddau ar ôl i'n cais am grant o £1,500 ddod yn gyntaf mewn pleidlais gan gwsmeriaid Tesco!

Cynhaliwyd y pleidleisio mewn siopau Tesco Bangor a Bethesda rhwng Ebrill 1 a Mehefin 30, 2025 gyda channoedd o gwsmeriaid yn dewis rhoi eu tocynnau crwn glas i'r Gymdeithas.

Diolch yn fawr i chi gyd!

Byddan ni nawr yn mynd ati i wario'r arian ar drefnu teithiau cerdded i'r deillion a phobl sy'n byw gyda nam golwg gyda'n Clwb cerdded Eryri.

Sefydlwyd y Clwb Cerdded gan y Gymdeithas yn 2007 i roi cyfle i bobl sy'n byw gyda nam golwg adennill a chadw eu hannibyniaeth a throedio llwybrau gwahanol yng nghwmni ffrindiau newydd a gwirfoddolwyr gwych.

Mae'r teithiau cerdded misol yn cynnig y cyfle i fynd i lefydd gwahanol ac yng nghwmni ffrindiau.

Mae Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru yn gwario rhai cannoedd o bunnoedd bob mis a



miloedd bob flwyddyn am gludiant i fynd â'r cerddwyr i'w cyrchfan ac adref.

Os hoffech wybod rhagor am Clwb cerdded Eryri Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, ffoniwch Bethan ar 01248 353604 neu bethan@nwsb.org.uk

# Ysbyty'r Chwarel



**Mr Dan Amor o Gyngor Gwynedd yn egluro rhan Cyngor Gwynedd yn y prosiect**

Dyma hanes ac ychydig ddelweddau o ymweliad criw o drigolion Dyffyn Ogwen i hen Ysbyty Chwarel y Penrhyn ddechrau mis Awst eleni.

Diwrnod agored wedi ei drefnu drwy law Cyngor Gwynedd a Phartneriaeth Ogwen oedd sail yr ymweliad.

Cafwyd cyfle i weld dechrau ar y gwaith cadwraeth sydd yn cael ei wneud I ddiogelu yr ysbyty hyd yma.

Mae'r prosiect yn digwydd mewn partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Welsh Slate (rhan o grwp Breedon) a Cadw, (fel rhan o grŵp "Llewyrch y Llechi).

Prif amcanion y gwaith yw:

Sefydlogi a chyfnerthu cyflwr y waliau.

Sefydlogi a chyfnerthu gwaith maen a phwyntio mortar.

Gwarchod y manylion pensaerniol a hanesyddol sy'n weddill oddi mewn.


Cafwyd paned, a sgwrs gefndirol ddiddorol yng nghanolfan y Cenfaes gan Dr Dafydd Roberts, Cae'r Wern i ddechrau. Yna aeth bws mini drydannol Partneriaeth Ogwen a'r criw draw at safle yr hen ysbyty.

Ar gwr y safle cafwyd gair gan bensaer y prosiect, aelod o dim Cyngor Gwynedd, a chynrhychiolydd o Cadw.

Yna aeth y criw i mewn i'r adeilad dan ofal y swyddog diogelwch.

Diolch i bawb am fore a phrofiad hynod werthfawr.





# Gwobrau Celf Cenedlaethol i Ddau Artist Lleol

Llongyfarchiadau i Gareth Griffith o Fynydd Llandygái a Barnaby Prendergast o Fethesda ar ddod i'r brig efo'u gwaith celf gan ennill y prif wobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Enillodd Gareth y Fedal Aur am gelfyddyd gain, ac enillodd Barnaby Ysgoloriaeth Artist Newydd Dewi Bowen. Derbyniodd gwaith y ddau glod uchel y beirniaid a'u harddangos yn Y Lle Celf ar Faes yr Eisteddfod.

Meddai Gareth, "Rwyf wedi arddangos fy ngwaith yn Y Lle Celf yr Eisteddfod Genedlaethol sawl gwaith ers y 1970au, ond dyma'r tro cyntaf i mi ennill y wobr yma. Rwy'n hapus iawn i'w derbyn – mae'n dipyn o anrhydedd i mi fel arlunydd o Gymru gael fy nghydnabod fel hyn,"

Meddai Barnaby, "Rwy'n gobeithio defnyddio'r wobr ariannol i ddilyn cwrs mewn ysgol neu goleg celf neu fynychu dosbarthiadau meistr i ddatblygu fy ngyrfa ymhellach."



**Barnaby Prendergast**



**Gareth Griffith**

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Profedigaethau**
Anfonwn gydymdeimlad dwysaf at John a Margaret Baston, 56 Bro Emrys.

Bu farw Douglas, brawd John, yn ddisymwth yn ei gartref, Tyddyn Forgan, Llanddeiniolen, ar Orffennaf y 14eg. Un o 'hogia Rachub' oedd Doug. Bydd colled mawr ar ei ôl gan ei deulu a'i ffrindiau i gyd.

Cofiwn yn gynnes at Brenda Davies, 10 Dolhelyg. Ar Awst 6ed, bu farw ei brawd, Elwyn, o 5 Penrhiw, Mynydd Llandegai, yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn gydymdeimlad dwys at y teulu oll yn eu galar.

Yn rhy hwyr i'w cynnwys yn rhifyn Gorffennaf o'r 'Llais', daeth y newyddion trist am farwolaeth Mrs Dilys Thomas; ' Dilys Maes y Groes' i'w hen ffrindiau yn Nhalybont. Bydd rhai o'n darllennwyr yn cofio Bryn, ei mab, ei wraig Marian a'r teulu bach yn byw ym Mro Emrys, cyn iddynt symud i Fangor.

Oherwydd i flynyddoedd maith fynd heibio ers i Dilys adael Talybont, rydym yn ddiolchgar i Bryn am rannu ychydig o hanes gyrfa ei fam efo ni:-

"Bu farw Dilys Thomas (Betws y Coed – Williams, Maes y Groes, Talybont gynt ) ar Fehefin 5ed yng Nghartref Coed Craig, Llandrillo yn Rhos, yn 97 oed.

Athrawes ysgol gynradd oedd Dilys, gan ddechrau ei gyrfa yn Lerpwl, cyn addysgu ym Mhenmachno, Dolgarrog a Betws y Coed, lle bu'n byw am yn agos at 70 mlynedd.

Roedd Merched y Wawr, Plaid Cymru, Cymdeithas yr Iaith a Chapel Nant y Benglog wrth Llyn Ogwen yn bwysig iawn iddi -roedd hi'n genedlaetholwraig i'r carn.

Mae'n gadael 3 mab a merch-yng-nghyfraith, 8 o wyrion a wyresau, a 7 gor-wyr a gor-wyres."

Estynnwn gydymdeimlad dwys y fro at y teulu i gyd yn eu hiraeth.

**Brysiwch wella**
Mae'n dda gennym gyhoeddi bod Rhian, ein Postmonas ffyddlon, wedi cael clun newydd o'r diwedd. Mae hi wedi gorfod disgwyl amdani, mewn poen mawr, am fisoedd lawer ond erbyn hyn mae'n dod ati ei hun yn dda iawn.

Mae Liz (Tacsis) yn gwella'n araf ar ôl ei thriniaeth yn Ysbyty Broadgreen. Gofal pia 'hi bob cam, ond mae gan Liz deulu gofalgar iawn sy'n cadw llygad barcud arni.

Cafodd Rachel, 14 Dolhelyg, driniaeth yn Ysbyty Gwynedd yng nghanol mis Awst. Mae i fod i orffwyso ond, fel y gwyddom, dydi hynny ddim yn hawdd iddi. Beth bynnag, mae hi'n gwella'n reit dda rwan.

Mae Dafydd Carr, 5 Cae Bach, yn aros mewn cartref preswyl yn Llandudno ar hyn o bryd. Cofiwn ato'n gynnes iawn.

Anfonwn ddymuniadau gorau at bawb o'r pentref sydd mewn cartref gofal. Hoffwn eu henwi, ond ofni gadael rhywun allan. Gobeithio y gwyddont bod eu ffrindiau yn Nhalybont yn sôn amdanynt o hyd, ac yn cofio am yr hwyl a gawsom yn eu cwmni.

**Gweddnewidiad**
Bu prysurdeb mawr yn Nhalybont yn ystod y gwyliau. Ar gais Cyngor Gwynedd, daeth cwmni Hogans â'u peiriannau anferth draw i Ddolhelyg a Chae Gwigin i roi gwyneb newydd ar y ffordd. Dychrynodd pawb wrth sylweddoli bod rhaid chwilio am le i barcio'n ceir i gyd yn ystod oriau'r gwaith. Beth bynnag, gyda llwyth o ewyllys da gan ffrindiau a chymdogion, cafwyd lle i bob un. Roedd yr hogiau' n gymeradwy iawn; yn gwneud eu gorau i hwyluso'r sefyllfa inni a mynd i drafferth i egluro pob cam o'r gwaith.

Roedd gweld y ffordd o Gae Bach i Dyddyn Cottages yn rhydd o geir yn atgoffa ambell un o'r brodorion hŷn am ddyddiau ei mebyd. Dau gar yn unig oedd yn Dolhelyg bryd hynny. Buan daeth tro ar fyd pan adeiladwyd mwy o dai yng Nghae Gwigin, a chodi ystâd Bro Emrys.

Tra oedd gwyneb dros dro ar y lôn, a'r cerrig mawr yn fygythiad enbyd i deiars a syspensiwn, braf oedd gweld pawb yn gyrru heibio'r Cae Chwarae ar gyflymder o 5 m.y.a.  Hir y parhao felly, er mwyn bywydau'r plantos!

## Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)
Medi 21 : Parchg. Trefor Lewis.
Medi 28 : Parchg. Ddr. Elwyn Richards.
Hydref 5. Mr. Dafydd Iwan.
Hydref 12 : Parchg. Anna Jane Evans.
Hydref 19 : Y Diolchgarwch. Derbynnir rhoddion i'r Banc Bwyd).

**Bwrlwm Bethlehem**
Mae'r Bwrlwm wedi ail-gychwyn ar bnawn dydd Iau, 11 Medi ac fe fydd yn cael ei gynnal bob yn ail ddydd Iau am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

## Eglwys St Cross

**Gwasanaethau rheolaidd** – ar y Sul cyntaf a'r 3ydd Sul bob mis am 11 o'r gloch. Bydd ein gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf ar 21ain Medi am 11 a.m. Croeso i bawb ymuno â ni.

**Bore Coffi:** ar y bore Mawrth cyntaf yn y mis fel arfer am 10.3o a.m. yn yr Ysgoldy. Bydd yr un nesaf ar Hydref 7fed.

**Cysylltu**:
Am fanylion pellach neu i holi am ymweliadau bugeiliol, cymun cartref, bedydd, priodasau, angladdau neu gladdu ym mynwent yr eglwys, cysylltwch â'r Ficer, y Parchedig Ddr Gareth Lloyd: GarethLloyd@cinw.org.uk 01248 361521; neu'r Barchedig Sara Robrets, Caplan Bro: SaraRoberts@churchinwales.org 07967652981; neu Warden Eglwys St Cross, Catrin Hobson 07881 802882

**Llongyfarchiadau**
Ar bnawn dydd Mawrth, yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, cyflwynwyd tystysgrif mewn ffrâm i Neville Hughes ('Yncl Nev' i blant Ysgol Sul Bethlehem) fel arwydd o'r gwaith gwirfoddol mae o'n ei wneud i Eisteddfod Dyffryn Ogwen ers amser maith. Roedd gan Angharad Mair restr gyhyd â'i braich o'r swyddi mae Nev wedi'u dal dros y blynyddoedd, a'r gwahanol ffyrdd mae o wedi codi arian at ein heisteddfod leol.

Un o nifer fawr o wirfoddolwyr drwy Gymru oedd Nev y pnawn hwnnw; pob un, fel yntau, ar dân dros ei iaith, ei ddiwylliant a ffyniant ei fro. Diolch am eu hymroddiad.

Er bod Neville yn byw ym Methesda ers dros drigain mlynedd, fe'i anwyd a magwyd yma yn Nhalybont.

Nev, mae trigolion dy bentref genedigol, y rhai gwreiddiol a rheiny, fel fi, sydd wedi 'landio' yma, mor falch ohonot. Dymunwn iechyd da iti, a'r nerth i ddal ati i wneud y pethau rwyt yn angerddol amdanynt. (Barbara Jones)

**Penblwydd arbennig**
Dathlodd Tia Alford, 32 Cae Gwigin, ei phenblwydd yn ddeunaw oed ar Orffennaf 13eg. Pob bendith a llwyddiant iti i'r dyfodol, Tia. Gobeithio iti fwynhau dy ddiwrnod arbennig.

Ymddiheuraf i bawb sydd wedi dathlu penblwydd arbennig yn ystod y gwyliau, ac am bob dathliad arall sydd wedi mynd heibio heb imi glywed amdano. Nodyn bodyn ar 'Messenger', neu alwad sydyn ar 07765600822, os gwelwch yn dda; dyna'r cyfan sydd angen.


ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117
Symudol: 07835487909

**Cartref newydd**
Mae Catrin a Chester, gyda chymorth teulu a ffrindiau, yn gweithio'n galed ar rif 12 Dolhelyg.
Edrychwn ymlaen at eu croesawu atom cyn bo hir.
Hefyd, dymunwn yn dda i Paige ac Osian o Fangor bydd yn symud i fyw i 30 Cae Gwigin yn o fuan.

**Cyfle i ganmol**
Mae'n braf cael cyfle i ganmol, yng ngwyneb yr holl achwyn a chwyno sydd yn y byd y dyddiau hyn.
Yr wythnos o'r blaen, dathlodd Anna, 21 Cae Gwigin, ei phenblwydd yn 7 oed, a phenderfynodd ei rhieni gynnal y te parti yn y Cae Chwarae. Erbyn i mi gerdded heibio'r cae ar ddiwedd y pnawn, roedd y plant i gyd bron wedi mynd adref. Cefais fy synnu: doedd 'na'r un botel blastig, na'r un pecyn creision gwag ar y gwair. Doedd dim tamaid o bapur na phlastig yn unman. Roedd y cyfan wedi cael ei hel yn dwt, a'i stwffio i'r biniau. Da iawn chi, blant Talybont, yn gwneud eich gorau i gadw'r Cae Chwarae a'r pentref yn daclus.

**Nodyn i'n cwsmeriaid**
Mae pris 'Llais Ogwan'yn dal yr un peth â'r llynedd, sef £7.70 am y flwyddyn, un o'r ychydig bethau sydd heb godi! Os buasech mor garedig â rhoi arian parod ar un ochr, mi ddof i'w casglu ym mis Hydref. Erbyn hynny, mae'n bosibl byddaf wedi derbyn cyflenwad o Galendrau i'w gwerthu hefyd.
Diolch o galon i bob un ohonoch am eich cefnogaeth hyd y blynyddoedd.

***Newyddion Hydref i'w dderbyn erbyn 27 Medi. Dyddiad cyhoeddi 16 Hydref.***

## Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Penblwydd hapus arbennig**
Penblwydd hapus yn 18 oed i Idris Morris, Tan y Garth a oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar yr 17eg o Orffennaf. Gobeithio bod chdi wedi cael amser da yn dathlu dy ben-blwydd arbennig.

**Cofion cynnes**
Gyrrwn ein cofion gorau at Alun Ogwen Thomas, Ffordd Gerlan sydd wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar. Gobeithio eich bod yn cryfhau'n ddyddiol – da ni'n colli'ch gweld chi'n mynd am dro a chael sgwrs.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi derbyn eu canlyniadau arholiadau ac yn symud ymlaen i'r bennod nesaf, boed hynny'n aros yn yr ysgol, mynd i'r coleg, y brifysgol neu yn cychwyn ar eu gyrfa ym myd gwaith. Pob dymuniad da i chi gyd.

**Gair o ddiolch**
Dymuna Arfon Evans, Ciltrefnus, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am yr holl gardiaua geiriau caredigtra'n dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar Orffennaf 30ain.  Diolch hefyd am y tê prynhawn ardderchog pan ddaeth teulu a chyfeillion draw i ddathlu'r achlysur.

**Caban Gerlan**
**Grant i wneud gwelliannau**
Mae Pwyllgor Caban Gerlan wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am grant Cronfa Ffyniant Gyffredin (Grant Sector Wirfoddol Gwynedd). Bydd y grant yn talu am ddrws newydd i'r neuadd a 2 ffenest sydd wirioneddol eu hangen. Bwriad y pwyllgor yw gwneud ceisiadau grant pellach er mwyn gallu cynnal a chadw'r adeilad a gwella effeithlonrwydd ynni'r neuadd, felly mae'r grant yma'n gam mawr i'r cyfeiriad cywir.

**Caffi Trwsio**
Bydd y caffi trwsio nesaf yn cael ei gynnal Dydd Sul y 28ain o Fedi rhwng 11 ac 1. Does na ddim rhaid i chi ddod ag unrhyw beth i'w drwsio. Dewch draw am banad a sgwrs ac i rannu syniadau – mae'n le hynod ddifyr!

**Jane Jones**
Hoffai Gwenfair ac Aneurin, a theulu y diweddar Jane Jones o Gerlan, estyn eu gwerthfawrogiad am bob cydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.
Diolch o galon i deulu estynedig, cyfelllion a chymdogion a deithiodd o bell ac agos i ddathlu bywyd Jane yn Eglwys Crist Glanogwen; ac am y galwadau ffon, ymweliadau, cardiau lu, a'r rhoddion hael a dderbyniwyd yn ddiolchgar er cof am Jane. Casglwyd £450.00 i Gronfa Cwtsh, Unded Gofal Arbennig Babanod, (SCBU) Ysbyty Gwynedd, er cof am Jane, i helpu brynu peiriant anadlu i'r babanod bach.
Roedd Jane yn nyrs hirsefydlog a gofalgar yn yr Uned Gofal Arbennig i Fabanod, yn Ysbyty Dewi Sant ac Ysbyty Gwynedd. Yn ogystal a bod yn Nyrs ymroddedig, roedd Jane hefyd yn gyfrifol am godi arian ar gyfer cyfarpar meddygol i'r uned, ac am sefydlu ymgyrch nodedig i wau dillad bach a theganau meddal mawr eu hangen i'r babanod yn y 1980au. Yn falch iawn, mae'r ymgyrch bwysig yma i helpu'r babanod yn yr uned, a'u teuleuoedd, yn parhau 40 mlynedd yn ddiweddar ac
'Roedd Jane hefyd yn falch o godi arian ar gyfer achosion da oedd yn agos at ei chalon ym Methesda, yn cynnwys codi arian i brynu a sefydlu y cyn Ysgol Gerlan fel Canolfan Cymunedol 'Y Caban'. Hefyd yn ymroddedig i Eglwys Glanogwen, roedd yn rhedeg yr Ysgol Sul am nifer o flynyddoedd ac yn aelod o bwyllgor Carnifal Glanogwen. Yn ffrind i lawer, roedd Jane pob amser yn barod i helpu eraill, ac yn annwyl iawn. Roedd yn cael ei adnabod fel 'Anti Jane' gan lawer yn y gymuned. Diolch i Jane am ei charedigrwydd ac ymroddiad.

## Cerdded 500 milltir i godi arian!

Er mai yn Rachub mae Catrin Doyle yn byw bellach, hogan o Gerlan ydi hi erioed. Mae Catrin wedi cerdded sawl llwybr pererindod yn Sbaen, Ffrainc a Portiwgal dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r daith gerdded ddiweddaraf yn mynd i fod yn her a hanner. Cychwynnodd Catrin ar ei phererindod ddiweddaraf, Camino Frances, yn Saint Jean Pied de Port yn y Pyrenees yn Ne Ffrainc ar yr 16eg o Awst a bydd yn cerdded 800km i Santiago yn Galicia dros gyfnod o dair wythnos. Mae'r daith yma chydig yn wahanol i Catrin gan y bydd yn codi arian y tro yma i achos arbennig sydd yn agos iawn at ei chalon – Clefyd Motor Neurone. Os fysa chi'n hoffi gwybod mwy am ei thaith ac yn awyddus i gyfrannu rhywbeth i'r elusen arbennig yma, yna mae'n bosib gwneud hynny trwy ymweld â'i thudalen codi arian ar https://www.justgiving.com/page/catrin-doyle-3?utm_medium=FR&utm_source=CL. Dwi'n gwybod y bydd Catrin a'r elusen yn gwerthfawrogi pob ceiniog a fydd yn mynd i gefnogi pobl sydd yn dioddef o'r clefyd creulon yma a'u teuluoedd. Pob lwc i ti ar y daith Catrin ac edrychwn ymlaen at glywed yr hanes pan ddoi di adra. (Fydd cyn i Llais Ogwan gael ei gyhoeddi.)

# Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Dathlu penblwydd arbennig**
Ar Orffennaf 24ain dathlodd Mrs Vera Jones, Glanffrydlas, ei phenblwydd yn 90 mlwydd oed. Cafodd ddiwrnod bythgofiadwy yn dathlu gyda'i theulu a'i ffrindiau yn y Clwb Criced, Bethesda.

Hoffai Vera estyn ei diolch am yr holl gardiau, yr anrhegion hyfryd a'r rhoddion hael a gasglwyd – cyfanswm o £900 – tuag at elusennau sy'n agos iawn at ei chalon: Ymchwil Cancr: Cymdeithas Altzheimer: Sglerosis Ymledol (Multiple Sclerosis).

**Priodas Ddeiamwnt**
Llongyfarchiadau mawr i Ann a Gwilym Williams, 6 Ffordd Coedmor, sydd wedi dathlu 60 mlynedd o briodas.

**Llwyddiant Cerddorol**
Llongyfarchiadau i Caio Euron Jones Hen Walia, Rhos y Coed ar lwyddo 'gyda theilyngdod' yn ei arholiad piano gradd 2 yn ddiweddar. Hyfforddir Caio gan Gerwyn Llwyd, Maes y Garnedd a threfnwyr yr arholiad oedd Bwrdd Cysylltiol yr Ysgolion Cerdd Brenhinol.

**80 oed**
Ym mis Gorffennaf dathlodd Eifion Davies, Ffordd Ffrydlas ei benblwydd arbennig yn 80 oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i ti Eifion, gobeithio i ti fwynhau y penwythnos yn Aberdaron.

## Yr Eglwys Unedig

**Cyhoeddiadau'r Sul**:
Medi 21: Y Gweinidog (10) a Mr Donald Pritchard (5)
Medi 28: Mrs Eirlys Williams (10)
Hydref 05: Y Parchedig Olaf Davies (5)
Hydref 12: Y Gweinidog (10)
Hydref 19: Y Parchedig Robert Capon
Hydref 26: Undebol yn Llanrug (10)

Edrychwn ymlaen at gyfarfod eto yn dilyn seibiant dros fis Awst – croeso cynnes iawn i bawb ohonoch.

**Colledion**
Yn ystod y gwyliau, daeth colledion trist iawn i ran y gymuned grefyddol ym marwolaeth y Parchedig Huw John Hughes, a'r Parchedig Marcus Robinson. Bu'r ddau fel ei gilydd yn hynod o gefnogol i'r Achos yma yn Jerusalem, a bydd bwlch enfawr ar eu hôl.

**Ymddeol**
Ymddeoliad hapus i Gareth Hughes, Bryn Caseg wedi 29 mlynedd o weithio i Dwr Cymru.

**Diolch**
Dyma teulu'r diweddar Dafydd E. Morris, Garnedd Uchaf fynegi eu gwerthfawrogiad o bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth.

**Cydymdeimlo**
Teulu y ddiweddar Menai Jones, Tregarth, sef Selwyn a Margaret Jones, Erw Las a Marian ac Iorwerth Griffiths, Ffordd Pant, a'u teuluoedd o golli mam, mam yng nghyfraith, nain a hen nain annwyl iawn.

Teulu y diweddar Mr Elwyn Davies, Mynydd Llandygai, priod y diweddar Jackie, tad a hen daid annwyl.

Teulu Y Parchedig Dr Huw John Hughes, Porthaethwy, gynt o Fynydd Llandygai, addysgwr, naturiaethwr, gweinidog ac awdur. Cofiwn yn dda am ei gyfnod fel prifathro Ysgol Penybryn.

**Profedigaethau**
Ar Fehefin 22ain bu farw Richard Victor Moore (Dick), Rhos y Coed. Priod annwyl Ruth a thad caredig Richard, Trefor, Nia a Sara, taid i Morgan, Osian, Noa, Owi a Mabon. Roedd yn fab i'r diweddar Tom ac Annie Moore, Bro Infryn, Glasinfryn, ac yn frawd i'r diweddar, Tom, Ron, Elsa, Vernon, Glennon ac Ike.

Bu ei angladd dydd Gwener, Gorffennaf 25ain gyda gwasanaeth yn Eglwys St Cedol, Pentir ac yna yn yr Amlosgfa. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Sara Roberts a chafwyd teyrnged gan ei ferch Nia. Cydymdeimlwn gyda chwi i gyd fel teulu.

Yn Ysbyty Gwynedd ar Orffennaf 17eg bu farw Ffrancon Thomas (Frank) Adwy'r Nant yn 95 oed. Mab y diweddar Bob a Nellie Thomas a brawd y diweddar Gladwyn, Glenys a William. Bu'r angladd ar Awst 14eg yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn efo'r teulu.

Wedi salwch blin ac yn Ysbyty Gwynedd bu farw Shirley Ann Pritchard, Pant Glas. Priod y diweddar Gwilym a mam Sian, Iona a'r diweddar Mark. Nain a hen-nain annwyl a chwaer hoffus. Bu'r angladd dydd Mawrth, Awst 12fed gyda gwasanaeth yng Nghapel Carmel Rachub a mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Sara Roberts a chafwyd teyrnged gan ei hwyres Erin, gyda Helen Williams wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu o golli mam, nain a chwaer annwyl.

Ar Awst 9fed yn dawel yn ei chartref yn Llanor, Garneddwen, wedi salwch hir bu farw Elsie Evans yn 89 oed. Priod y diweddar Wyn a mam garedig ac annwyl i Michael, Carol ac Alison, mam yng nghyfraith Henryk, nain hoffus i Steffan, Cassie, Megan, Matthew a Sara a hen nain Lottie, Lucas, Noah, Owi a Dewi. Cafodd Elsie ofal arbennig gartref ers cyfnod y cofid gan Alison, Carol, Cassie a Megan a'r tim gofalu oedd yn galw bob dydd. Bu ei hangladd dydd Mawrth Medi 9fed gyda gwasanaeth yn Eglwys Grist Glanogwen lle bu Elsie'n selog i'r oedfaon bob bore Mercher ac yna yn Amlosgfa Bangor gyda'r gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Sara Roberts. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu yn eich profedigaeth.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i Cian Iolen Rhys, Garneddwen, sydd wedi derbyn gwobr, 'Aelod sy'n dangos y potensial mwyaf' fel rhan o gynllun Academi Amaeth Iau 2024, Cyswllt Ffermio. Cyflwynwyd y wobr i Cian yn ystod Sioe Frenhinol Cymru fis Gorffennaf.

Roedd Cian yn un o 12 o bobl ifanc fu'n ffodus i sicrhau lle ar yr Academi Amaeth Iau, sef rhaglen sy'n cael ei rhedeg gan Cyswllt Ffermio ar gyfer pobl ifanc sydd a diddordeb datblygu gyrfa yn y diwydiant amaeth. Yn ystod 2024, a hanner cyntaf 2025, manteisiodd Cian ar amrediad o weithgareddau fel rhan o'r rhaglen gan gynnwys ymweliad a Norwy i ddysgu am eu systemau ffermio.

Pob lwc i ti yn dy swydd newydd ac i'r dyfodol.

## Cyngor Cymuned Bethesda

(O gyfarfod Nos Fercher Gorffennaf 15fed.)

**Torri Coed Gerlan** Bydd Cyngor Gwynedd yn trefnu i dorri'r tyfiant / coed ar hyd Ffordd Newydd, Gerlan. Bydd y gwaith yn cael ei wneud cyn gynted ag y bydd y contractwr ar gael i'w raglennu.

**Gordyfiant & Llwybrau** Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Colin Jackson am ei waith gwych yn torri'r gordyfiant oddi ar nifer o lwybrau ym Methesda, gan wneud y rhain yn fwy diogel ac yn haws i'w defnyddio gan bawb. Diolch hefyd i Barry, swyddog cynnal Partneriaeth Ogwen, am dorri rhai o'r coed oedd yn hongian dros rai o'r llwybrau.

**Newid Cyflenwr Trydan** Mae'r Cyngor Cymuned ar hyn o bryd yn y broses o newid cyflenwr ynni, gan symud i ffwrdd o Scottish Power. Fe sylweddolwyd ein bod ar dâl sefydlog uchel iawn, ac roedd hynny'n wers i ni – mae'n hollbwysig i fusnesau ac unigolion lleol sicrhau eu bod ar y tariff gorau posib. Os oes angen unrhyw gyngor neu gymorth ar faterion yn ymwneud ag arbed ynni neu newid tariff, cofiwch fod croeso i chi alw draw i siarad gyda staff yn **Hwb Ogwen**, ar y Stryd Fawr.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt. Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar lbath@phonecoop.coop

**Diolch**
Diolch yn fawr iawn i'r ffyddloniaid sydd yn cyfrannu'n gyson at gynnal a chadw'r mynwentydd er cof am aelodau'r teulu. Mae costau'r gwaith yn cynyddu, a'r gwirfoddolwyr wedi mynd i oed! Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'u hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ol llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartrefi, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiwn yn arbennig am y rhai sy'n galaru ar ôl colli anwyliaid. Cofiwch roi gwybodaeth i'r Ficer neu Sara os oes rhywun yn awyddus i gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

**Newid dros y gaeaf!**
Mae trefn y gwasanaethau'n newid o fis Medi ymlaen, felly o hynny tan y Pasg, bydd y drefn fel a ganlyn:-

**Gwasanaethau Eglwys Crist: Suliau 1af a'r 2il yn y mis**: 11.00 y bore – Cymun Bendigaid.

**Y TRI bore Mercher cyntaf ym mhob mis** am 10.30yb – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.

Mae'r drefn newydd er arbed ychydig o gostau goleuo a chynhesu adeilad mor fawr dros y tywydd oer.

Croeso cynnes, fel arfer, i bawb i'r holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ein ficer ar 01248 361521 am unrhyw fater yn ymwneud a'r eglwys, Neu'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981.

**Clwb Cant Glanogwen**
*Ennillydd mis Mehefin*
1. Gareth M Owen
2. Gwyndaf Roberts

*Ennillydd mis Gorffennaf*
1. Morfudd Roberts
2. Johanna Owen

***Newyddion Hydref i'w dderbyn erbyn 27 Medi.***
***Dyddiad cyhoeddi 16 Hydref.***


STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
**Ebost:** stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com


## Clwb Gorffwysfan

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y clwb fore Llun Gorffennaf 21ain am 11:00y.b. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Rhiannon Efans, a'r aelodau yn bresennol oedd, Dilwyn Owen; Dennis Dart; O. J. Evans; Helen Williams; Gaynor Davies; Brenda Hughes; Linda Hughes; Rita Thomas; Edric Jones a Joe Hughes.

Ymddiheriadau: Ann Williams a Babs Hardy

Cafwyd gair o groeso i bawb gan y cadeirydd ac fe ddymunodd wellhad buan a chofion y clwb at Christine Jones, Brenda Williams, Joseph Dignam, Val Amos ac Ann Williams.

Roedd yr aelodau yn falch o weld ein cadeirydd yn ôl wedi triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Bu i'r clwb golli un aelod ffyddlon ac un gyn-aelod yn ddiweddar, sef Mrs Bessie Buckley a Mrs Menai Jones. Cydymdeimlodd y cadeirydd â'r ddau deulu. Darllenwyd cofnodion pwyllgor Llun Gorffennaf 8fed.

*Adroddiad y trysorydd* – Helen Williams
Adroddwyd bod sefyllfa ariannol y clwb yn foddhaol. Bydd y trysorydd yng Ngorffwysfan ar y cyntaf o bob mis i dderbyn arian y bêl bonws. Diolchwyd i'r trysorydd am ei gwaith.

*Aelodaeth 'Pêl Bonws'*
Cafwyd gwybod gan y trysorydd bod pedwar rhif ar gael ac wedi trafodaeth penderfynwyd eu cynnig i'r cyfeillion sy'n selog ar ein gwibdeithiau sef Carys Roberts, Gillian Morgan, Jean Brown a Denise Williams. Rhaid talu yr arian, mewn amlen, i'r trysorydd yn fisol os gwelwch yn dda.

*Cinio Nadolig 2025*
Wedi trafodaeth, ac yna pleidlais, bydd ein cinio Nadolig eleni ym Metws y Coed, dydd Mercher, Rhagfyr 10fed. Helen a Joe i drefnu. Byddwn yn cychwyn o Fethesda am 9:30 y bore gan fynd i Ganolfan Bwyd Bodnant am goffi ac ymlaen wedyn i Fetws y Coed.
Y bleidlais oedd: Clwb Rygbi Bethesda 4. Betws y Coed 7.

*Gwibdeithiau Amwythig – Southport*
Daeth cais i law i newid gwibdaith Amwythig ar Awst 13eg i Southport ar Awst 24ain a chytunodd pawb.
Penderfynwyd rhoi rhodd o £50 i Eglwys Jerusalem am gael parcio yno diwrnodau'r gwibdeithiau, hefyd rhodd o £10 i r trysorydd, ysgrifennydd a Dennis. Er gwybodaeth i'r aelodau mae bore coffi wedi ei drefnu ar gyfer Sadwrn, Rhagfyr 6ed yn Festri Jerusalem.

*Ethol Swyddogion am 2025 – 2026*
Cadeirydd – Rhiannon Efans
Is-gadeirydd – Edric Jones
Trysorydd – Helen Williams
Ysgrifennydd – Joe Hughes

Diolchwyd i bawb am eu gwaith yn ystod y flwyddyn gan Linda Hughes.


TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

| cynghorydd. Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru |
|---|---|---|---|---|
| 07765 400140 | 07747 690456 | 07789 742092 | 07436 927237 | 07949 034967 |
| Arllechwedd | Gerlan | Canol Bethesda | Tregarth & Mynydd Llandygai | Rachub |



# Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

## Capel Shiloh Newydd

**Gwasanaethau'r Sul**
Dyma fanylion gwasanaethau Medi/Hydref a gynhelir yn y Neuadd am 10 o'r gloch y bore:

**Medi 28**: Trefniant lleol
**Hydref 5**: Dafydd Coetmor Williams
**Hydref 12 (Gwasanaeth Diolchgarwch)**: Dr. Ian Morris
**Hydref 19**: Hugh Pritchard

Croeso cynnes iawn i bawb.

**Darlith gyhoeddus**
Fe fu'r misoedd diwethaf yn rhai prysur tu hwnt i Cadi Iolen, Curadur Amgueddfa Lechi Cymru, wrth iddi hi a'i thîm bychan o gynorthwywyr yn Llanberis fynd ati i wneud y gwaith manwl o gofnodi a symud cannoedd o eitemau a gasglwyd dros gyfnod o 150 mlynedd i gartref dros dro. Yn y cyfamser mae gwaith adeiladu sylweddol yn digwydd yn yr Amgueddfa i adnewyddu'r adeilad ac i wella'r profiad i ymwelwyr. Bydd y datblygiadau yn cynnwys caffi newydd, gofod arddangos a chanolfan addysg a dehongli.

Os am yr hanes i gyd, dewch draw i'r Neuadd **nos Iau, Hydref 2** am 7 o'r gloch i glywed y cyfan o lygad y ffynnon! Teitl y ddarlith gyhoeddus i'w chyflwyno gan Cadi ydi 'Tu ôl i'r llen yn Amgueddfa Lechi Cymru: Dogfennu, pacio a symud ein casgliad'.



Cadi a'i chynorthwywyr, Mathew Williams ac Osian Thomas, wrth eu gwaith

**Gweithdy Afon Cegin**
Ddiwedd Awst cynhaliodd Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru ail weithdy yn y Neuadd yn Rhiwlas gan roi'r cyfle inni gyfrannu i'r prosiect Caru'r Cegin y maen nhw'n ei ddatblygu. Mae'r prosiect yn cynnwys holl ardal ddalgylch yr afon Cegin, ac mae cymaint i'w ddysgu! Yr hyn wnaethon ni, fel yn y cyfarfod cyntaf, oedd nodi ar fap y cyfan roedden ni'n ei wybod am yr afon: adar, anifeiliaid, pysgod, coed, hanes; yr hyn oedden ni wedi ei weld ac ymhle. Roedd y sgwrs a ddeilliodd o hynny yn ddifyr dros ben. Sut mae'r rhannau uchaf yn eitha' glân mewn gwirionedd, ond, erbyn y rhan olaf, sy'n dirwyn drwy goed hyd ymyl y Lôn Las, wedi ei lygru'n ddrwg. Pobol leol oedden ni i gyd a chymaint o wybodaeth rhwng pawb. Am goed, pysgod, a lle i ddod o hyd i'r iâr ddŵr a'r gnocell werdd; sut i reoli Jac y neidiwr (*himalayan balsam*) a biochar – siarcol wedi ei gynhyrchu i fod yn eithriadol o fandyllog. Y cwestiwn godwyd oedd a allai hidlwyr biochar gael eu defnyddio i hidlo'r plastigion micro (o deiars) oedd yn y dŵr sy'n draenio oddi ar bont yr A55? Os am wybod mwy am y prosiect ewch i wefan Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru ar www.northwalesriverstrust.org/caru'rcegin.

**Picnic yn y Parc**
Fe fu'r fenter newydd 'Picnic yn y Parc' a gynhaliwyd gan Gyfeillion Rhiwlas ganol Gorffennaf yn llwyddiant mawr. Roedd peth amheuaeth a fyddai'n bosib' ei gynnal ar un adeg oherwydd rhagolygon y tywydd ond mi wenodd yr haul a mwynhaodd pawb bicnic i'w gofio! Roedd y trefnwyr yn falch iawn hefyd o weld wynebau newydd yn eu plith.

Fel y gwelwch chi o'r lluniau roedd y 'stocs' yn boblogaidd iawn a digon o wirfoddolwyr yn barod i gael socsan! Hefyd fe fu nifer dda o blant ac oedolion yn mwynhau'r gystadleuaeth Tynnu Rhaff. Erbyn i'r fan Hufen Iâ gyrraedd roedd pawb yn barod amdano er mwyn ail-adfer yr egni!

Diolch o galon i'r Cyfeillion am drefnu'r digwyddiad newydd, hwyliog yma.







**Dymuniadau da**
Pob dymuniad da i blant a phobol ifanc y pentref sydd wedi cychwyn ar bennod newydd yn eu hanes yn addysgol, boed yn yr ysgol gynradd, ysgol uwchradd neu goleg. Mwynhewch, a phob llwyddiant!

**Ailafael**
Ar ôl egwyl dros yr haf mi fydd y gwahanol gymdeithasau sy'n cyfarfod yn fisol yn y Neuadd yn ailafael yn yr awenau. Mae'n gyfle gwych i gymdeithasu, i gael hwyl yng nghwmni cyd-bentrefwyr ac i ddal i fyny efo'r newyddion diweddaraf. Croeso i aelodau newydd a hen! Mae Merched y Wawr yn cyfarfod ar yr ail brynhawn Mawrth yn y mis am 1.30 o'r gloch yn y Neuadd; mae Clwb Rhiwen, sy'n agored i unrhyw un dros 50 oed, yn cyfarfod ar y trydydd brynhawn Mercher o'r mis am 2 o'r gloch, eto yn y Neuadd. Cofiwch hefyd am yr holl ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn wythnosol yn y Neuadd – o'r Clwb Crefft, i loga a'r Clwb Tenis Bwrdd. Rhywbeth i bawb! Dilynwch dudalen y Neuadd Pentref ar *Facebook* neu ewch i wefan y Neuadd ar **neuaddrhiwlas.cymru** i gael manylion yr holl weithgareddau yn llawn.

**Coffi a Chacen**
Os am baned a dewis helaeth o gacenni blasus, anghofiwch am yrru o'r pentref i gaffi ddydd Sadwrn, Medi 27. Y prynhawn hwnnw, yn y Neuadd rhwng 1 a 3 o'r gloch y pnawn, mae croeso i chi alw heibio am sgwrs, paned a chacen o'ch dewis – ond peidiwch â'i gadael hi'n rhy hwyr. Mae'r cynnyrch yn tueddu i ddiflannu yn reit sydyn!

**Clwb Rhiwen**
Aeth aelodau'r Clwb draw i ymweld â Chaffi Cartref, yn y Bontnewydd am de hufen ar Orffennaf 16 i ddiweddu'r tymor. Cafwyd gwledd flasus dros ben o gynnyrch cartref wedi ei baratoi gan staff y Caffi. Bellach mae'r Clwb yn edrych ymlaen at y tymor newydd a bydd y cyfarfod cyntaf ar Hydref 15 yn y Neuadd lle bydd Carrie o Cosyn Cymru yn ymweld â ni i sgwrsio am ei chrefft o wneud caws. Croeso cynnes i unrhyw un dros 50 oed!

**Grŵp Paned a Sgwrs yn 5 mlwydd oed**
Cyfarfu'r grŵp am y tro cyntaf yn 2020, yn Neuadd y Pentref, wythnos yn unig cyn y Clo Mawr. Oherwydd hynny fe fu'n rhaid symud y Paned a Sgwrs ar-lein yn syth a hynny ar gyfrwng diarth i nifer ar y pryd – *Zoom*. Pum mlynedd yn ddiweddarach ac, ac eithrio rhai sesiynau wyneb yn wyneb achlysurol, mae'r criw yn dal i gyfarfod dros *Zoom* bob bore Llun gan fod rhai yn dod o bell. Criw bach o ddysgwyr a siaradwyr ydym ni sy'n sgwrsio, chwerthin a chael hwyl yng nghwmni ein gilydd. Llongyfarchiadau i'r criw ar ddathlu'r pumed pen-blwydd!

Mae croeso i bawb i Baned a Sgwrs ar-lein. Os am fwy o wybodaeth, neu bicio draw, cysylltwch â kate@bronnydd.co.uk

# Grym yn ein dwylo – Rali i'w chynnal ym Methesda

Disgwylir i gannoedd o bobl ddod i Ddyffryn Ogwen Sadwrn 1af Tachwedd i ymuno a phobl y fro yn y diweddaraf o gyfres ralïau "Nid yw Cymru ar Werth". Bydd pawb yn ymgynnull wrth Lys Dafydd am 12.00 ac, wedi gorymdaith, gynnal rali am 1pm yn Neuadd Ogwen. Ymhlith y siaradwyr, bydd Siân Gwenllïan AS, Mel Davies, Jaci Cullimore ac Osian Jones o Gymdeithas yr Iaith. Yn dilyn y rali, bydd trafodaethau yn Ystafell Gwenllïan. Teitl y rali fydd "Grym yn ein Dwylo".

Dywed Cymdeithas yr Iaith nad yw Llywodraeth Cymru'n effro i argyfwng ein cymunedau Cymraeg. Cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyn ar Dai heb unrhyw ddeddfwriaeth o gwbl i ddilyn. Gofynnodd y Llywodraeth i'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg dreulio dwy flynedd yn paratoi adroddiad manwl ac yn llunio argymhellion,ac yna deg mis i astudio'r adroddiad. A'r penderfyniad ar ddiwedd hyn oll oedd y gall fod "mwy o drafod".

Ar ran Cymdeithas yr Iaith, dywedodd Ffred Ffransis: "Mae'n amlwg nad yw'r llywodraeth yn effro i argyfwng ein cymunedau Cymraeg, ac nad oes ganddynt o gymryd unrhyw gamau pwrpasol wrth iddynt ymlusgo mlaen at yr etholiad fis Mai nesaf. Yr haf nesaf, byddwn yn trefnu rali fawr i herio'r llywodraeth nesaf i weithredu. Ond ni all ein cymunedau Cymraeg oedi am flwyddyn arall. Yn y cyfamser felly, rhaid iddynt gymryd y grym i'w dwylo eu hunain. Yn y rali, byddwn yn galw ar gymunedau ledled y wlad i ffurfio mentrau cymunedol gyda'r bwriad o berchnogi eu tai, eu gwasanaethau, a chreu prosiectau ynni cymunedol a chynyddol reoli twristiaeth a chreu cyfleon gwaith. Mae'n bwysig fod y cyfan yn cael ei weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Mae'r Gymdeithas yn trefnu'r rali ym Methesda yn gydnabyddiaeth o'r esiampl ac arweiniad gwych a roddodd mentrau lleol yn Nyffryn Ogwen, ac i geisio ehangu dealltwriaeth a hyder am sefydlu mentrau mewn bröydd eraill sydd eto heb arweiniad lleol."

# Anrhydeddu Gwirfoddolwyr

Ar ddydd Mawrth yr Eisteddfod Genedlaethol eleni roedd cyfarfod i anrhydeddu gwirfoddolwyr gydag eisteddfodau lleol Cymru. Roedd rhai o bwyllgor Eisteddfod Dyffryn Ogwen wedi penderfynnu mai da o beth fyddai enwebu un o swyddogion ein heisteddfod ni, sef y trysorydd Neville Hughes. Roedd rhaid rhoi rhesymau wrth gwrs dros wneud hyn. Ble i ddechrau ynte, ond ni chafodd ein hysgrifennydd drafferth o gwbl i'w rhestru:-

trysorydd gofalus a medrus – trefnu boreau coffi – gwerthu ei jam cartref – brwdfrydig tuag at y Gymraeg – ffotograffydd yr Eisteddfod – trefnu a chasglu hysbysebion yn y rhaglen – unigolyn gweithgar a diflino ... a llawer mwy.

A dweud y gwir gellir bod wedi nodi'r



uchod gyda'r holl wirfoddoli mae Neville yn ei wneud, rhwng y Cyngor Cymuned, capel, ambell i gymdeithas, heb son am Llais Ogwan.

Cynhaliwyd y cyfarfod anrhydeddu ym Mhabell Llywodraeth Cymru. Diolch i Barbara Jones Talybont am y llun. Diolch i ti Nev am dy holl gyfraniad i bopeth sy'n agos at dy galon yn Nyffryn Ogwen.

O.N. Golygydd y mis yma ydy Neville ac mae o dan orchymyn pendant i gynnwys hwn.


SPAR
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos



# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**CANOLFAN CEFNFAES**
## Gyrfa Chwist
Medi 23 a 30
Hydref 14 a 28
am 6.45yh.
Croeso i bawb

**FESTRI CARMEL LLANLLECHID**
## Te Bach
Pnawn Llun, 22 Medi
2.30 – 4.00yp
Croso cynnes i bawb

## GIGS NEUADD OGWEN
02/10 Leveret
10/10 The Undercover Hippy
17/10 Eat Static
18/10 Electric Swing Circus
25/10 Cerys Hafana
31/10 Gong
www.neuaddogwen.com

## Clwb Coffi Talybont
**FESTRI BETHLEHEM**
Boreau Llun, 10.30 – 12.00
**Medi 29**
**Hydref 13 a 27**
Croeso cynnes i bawb

## Clwb Hanes Caellwyngrudd a Llanllechid
Tymor Newydd yn cychwyn
**24 Medi am 7yh**
yn y Clwb Criced a Bowlio
**Siaradwr Gwadd – Bob Morris**
Testun : "Twristiaeth Cynnar"
*Croeso i gyn aelodau a rhai newydd.*

**FESTRI JERUSALEM**
## Bore Coffi Macmillan
Mynediad: £1.00
**Dydd Gwener, 26 Medi**
10.00 – 12.00yb

**FESTRI JERUSALEM**
## Bore Coffi Gofal Cancr
Mynediad: £1.00
**Sadwrn, 11 Hydref**
10.00 – 12.00yb

***Newyddion Hydref i'w dderbyn erbyn 27 Medi. Dyddiad cyhoeddi 16 Hydref.***


**YMUNWCH. ARCHEBWCH. MYND.**
WWW.TRYDANI.ORG

- £2 YR AWR
- 16C Y FILLTIR
- GYDA CHAP O £30 Y DYDD.


SESIYNAU CYFARWYDDO AR GAEL I AELODAU NEWYDD

CAR GER Y LLYFRGELL CYMUNEDOL DYFFRYN OGWEN

TrydaNi


## GORYMDAITH Annibynniaeth
**Y RHYL**
**Sadwrn, 18 Hydref**



# Parc Y Moch (gan Harri Pickering)

Bydd rhai ohonoch chi'n nabod fi neu fy nheulu. Harri ydw i, a ges i fy magu yn nhopiau Rachub. Ers tair blynedd rŵan rydw i wedi bod yn gweithio ar ddatblygu rhan o'r coed Parc y Moch, a byswn i wrth fy modd yn rhannu rhan o'n stori ddiweddar efo chi.

Mae'r goedwig wedi bod yn rhan o'n cymuned erstalwm, mae o i weld ar hen fapiau o'r 1850au, ac mae 'na rhai coed sydd yn hynach na hynna. Dwn i'm faint o weithiau mae pobl wedi adrodd straeon o ddod i hel concyrs o'r coed pan oedden nhw'n ifanc, ac mae o wedi bod yn rhan fach o hanes y dyffryn. Dwi'n cofio ers pan o'n i'n plentyn, 'roedd fy nhad yn gweithio yma am flynyddoedd, ac 'roedd ganddo fo'r obsesiwn o drio gwella'r gofod i greu rhywle ar gyfer pobl a natur. Cyn iddo fo gymryd drosodd y rheolaeth, yn anffodus 'roedd y lle heb gael ei edrych ar ei ôl am sbel, ac 'roedd na ormod o goed mewn lle bach, ac 'roedd y lle angen tipyn bach o gariad. Ei fwriad o oedd creu budd i'r gymuned, ac yn ei flynyddoedd olaf hwyrach y gwelsoch chi arwyddion ar yr A5 yn sôn am lwybr clychau'r gog. Mae'r lle yn llawn dop ohonyn nhw yn y gwanwyn ac mae'n werth chweil dod i'w gweld nhw. Fe farwodd o dros 6 mlynedd yn ôl erbyn rŵan ac mae o wedi ei gladdu yn y coed. Fel teulu rydym wedi penderfynu trio dal ymlaen efo'r syniad o greu rhywbeth agored i bawb lleol, a thair blynedd yn ôl dechreusom grŵp cymunedol sydd rŵan yn edrych ar ôl y goedwig.

Cyn i mi gario 'mlaen mae'n rhaid i mi gyffwrdd â rhywbeth. O siarad efo pobl leol, rydym yn deall bod sefyllfa'r coetir ddim yn un amlwg iawn achos yr arwyddion ar Ffordd Llwyn Bleddyn. Mae yna un darn o'r goedwig ar yr ochr yna sydd efo perchnogion gwahanol sydd, yn anffodus, ddim mor groesawgar i'r gymuned ehangach. Ta waeth, gallwn ni ddim









dewis ein cymdogion! I'r gwrthwyneb, mae'r tamaid o'r goedwig rydan ni'n edrych ar ei ôl yn agored i chi i gyd. Mae'n rhywle fedrith pobl ddod i dreulio pnawn distaw ymysg coed llydanddail. Lle bysa rhywun yn gallu dianc o'r haul poeth yn yr haf, neu ddod i hel cnau yn yr hydref. Y ffordd orau o gyrraedd ein darn ni yw trwy'r giât bren ar yr A5, ger croesffordd Brynbella. Neu gallwch chi gerdded ar hyd y llwybr cyhoeddus i lawr o Goed Uchaf.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gwella'r traciau o gwmpas y goedwig fel bod nhw'n fwy hygyrch ac yn hawdd cerdded arnyn nhw dros gyfnodau gwlyb. Hefyd rydym wedi comisiynu 5 mainc bren, gan saer coed lleol Mike Bithell, sydd o gwmpas y goedwig mewn llefydd hardd lle fedrwch eistedd i gymryd yr olygfa. Rydym hefyd wedi creu pyllau mewn un adran, lle rydan ni'n gobeithio bydd mwy o fywyd natur yn gallu creu cartref. Dros y ddwy flynedd diwethaf mae'r coed hefyd wedi troi yn safle sydd yn cynnal gweithdai a gweithgareddau ar gyfer plant ac oedolion. Mae ysgolion Tregarth, Llanllechid a Dyffryn Ogwen wedi treulio diwrnodau cyfan yn gwneud gweithgareddau ysgol goedwig. Mae'r plant wrth eu boddau yn treulio amser yn yr awyr agored yn dysgu sgiliau fel sut i gynnau tân neu glymu rhaff, neu hyd yn oed chwarae cuddio rhwng y coed.

Mae 'na hefyd, nifer o weithdai wedi bod ar gyfer oedolion yn dysgu sgiliau traddodiadol. Er enghraifft, dros yr haf yma rydym wedi cynnal gweithdai amrywiol fel gwneud basgiad trwy wehyddu helyg, un arall i ddysgu gwneud llwyau o bren efo cyllyll, a hefyd un lle wnaeth pawb wneud stôl odro o bren. Yn bersonol dwi'n caru gweld pobl yn colli ei hunan yn dysgu sgil newydd mewn cwmni gwahanol. Mae pobl yn gadael y goedwig bob tro efo gwen ar ei wynebau a phrofiad newydd. Efo sut mae'r byd yn newid, mae'n hynod o bwysig i helpu i gysylltu pobl efo'n traddodiadau, efo natur ac efo pobl eraill, ac mae prosiect Parc y Moch wedi dechrau gwneud hynna.

Rhywbeth arall sydd wedi dechrau yn y goedwig yw menter fach sydd yn cynhyrchu siarcol mewn popty cylch haearn, neu "ring kiln" yn Saesneg. Mae'n sicr y bydd rhai ohonoch wedi gweld rhywbeth tebyg ar y ffordd i fyny I Raeadr Aber. Wel, rydym wedi dechrau cynhyrchu a gwerthu bagiau'n lleol. Mae popeth wedi ei wneud â llaw, ac rydym yn hapus iawn efo safon y cynnyrch. Os ydych isio trio cynnyrch lleol mae o ar werth mewn nifer o siopau lleol. Rydw i'n sicr y byddwch yn gweld bod siarcol lleol yn lot gwell na beth sydd wedi'u fewnforio yr ydych yn ei gael fel arfer. Ac os ydych yn prynu bag byddwch yn helpu i'n cefnogi ni fel mudiad. Os ydych am ddysgu mwy am y broses yma ac am y prosiect yn gyffredinol, rydym wedi gwneud fideo byr trwy gyfrwng y Gymraeg a gallwch ei weld trwy'r linc QR isod.

Mae yna un peth arall rydw i isio ei rannu, gan fy mod i'n meddwl y bydd rhai ohonoch chi'n ei werthfawrogi. Dros yr haf eleni daeth yr artist, Mark Aitkin, i fyny o Lundain i Barc Moch I recordio synau'r goedwig, ac allan o'r rhain mae o wedi creu "taith sain" sydd yn agored i bawb. Mae'n anodd disgrifio'r daith, ond mae'n cyffwrdd â natur a hanes y dyffryn, ac fe gafodd fersiwn Cymraeg ei recordio efo'r ficar Sara Roberts. Yr unig beth dach chi angen yw ffôn symudol a chlustffonau, y syniad yw bod chi'n mynd am dro i'r awyr agored ac yn dilyn y darn ar ben eich hunan, gallwch glywed y darn trwy'r cod QR isod. Mae'r daith sain yma, a lot fawr iawn o'n gwaith wedi cael ei gefnogi'n ariannol gan y Loteri Genedlaethol, ond hefyd mae rhaid rhoi diolch mawr I Elusen Ogwen a hefyd Menter Môn am eu cefnogaeth.

Os ydych wedi cyrraedd y pwynt yma, diolch am ddarllen! Mae'n gas gen i siarad gymaint am beth sydd yn mynd 'mlaen, mae 'na gymaint sydd ddim yn dod drosodd trwy eiriau yn unig. I ddeud y gwir byswn i lot fwy cyfforddus yn dangos i chi yn bersonol, felly cymerwch hyn fel gwahoddiad agored i ddod i'n gweld ni yn y goedwig. Mae'n lle ardderchog i ddod am dro.

Joiwch yr hydref bawb, a gobeithio gwelwn ni chi i lawr yn y goedwig yn fuan!

Fideo Golosg

Taith Sain

# Llythyr

**Annwyl Mark Drakeford AS,**
Anfonwn atoch mewn perthynas ag argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

Mewn datganiad i'r wasg yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol rydym eisoes wedi beirniadu arafwch affwysol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael o ddifrif ag argyfwng y cymunedau Cymraeg. Aeth blwyddyn gyfan heibio ers i chi dderbyn argymhellion y Comisiwn. Gresynwn nad ydych wedi trefnu rhaglen o weithredu holistaidd a chydlynol fel ag i gwmpasu'r meysydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae'r angen am weithredu rhaglen yn y dull hwn yn amlwg yn adroddiad y Comisiwn. Rhaid ei gweithredu'n bwrpasol ac egniol os ydym am lwyddo i wrthdroi'r cyfnewid iaith a rhoi cychwyn i broses adeiladol o sicrhau seiliau cymdeithasaol-ieithyddol ac economaidd cadarn i gynnal y Gymraeg fel y gall ymestyn a ffynnu'n gymunedol.

Y cam cyntaf allweddol mewn rhaglen amlweddog o'r fath yw dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae hynny'n amlwg yn adroddiad y Comisiwn, ac mae digon o dystiolaeth ym maes cymdeithaseg iaith i gadarnhau hanfodolrwydd cam cychwynnol o'r fath, sef yr angen i warchod a chryfhau gwead a strwythur cymdeithasol yr iaith. Pwysleisiwyd yr egwyddor hon yn glir eisoes:

Bwriad dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yw bod yn gam cychwynnol ar gyfer amrywio polisi yn lleol yn enw ymdrechion i rymuso'r iaith ar lawr gwlad. Ynghyd â dweud bod angen dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch mae yna 56 argymhelliad arall a wneir gan y Comisiwn yn enw cryfhau sefyllfa'r Gymraeg a'i siaradwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dwysau'r ystyriaeth a wneir o'r Gymraeg o fewn fframwaith polisi mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- Rhoi grymoedd angenrheidiol i gymunedau allu wrthdroi 'shifft iaith'.
- Deddfwriaeth newydd i sefydlu'r fframwaith ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- Sefydlu uned oddi fewn i Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu a chydlynu polisi yn yr ardaloedd hyn. Creu cyngor o arbenigwyr i gynghori'r uned hon.
- Creu strategaeth datblygu economaidd i gael ei lunio yn arbennig ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn enw gwella economïau lleol a darparu ar gyfer anghenion sylfaenol y boblogaeth ac er lles aelwydydd.

Syndod a siom oedd eich clywed yn dweud mewn cyfweliad i'r BBC yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol nad ydych yn gwybod sut mae mynd ati i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch (boed hynny'n orchwyl i Lywodraeth Cymru neu i'r cynghorau sir). Mae Adran 3 yn adroddiad y Comisiwn yn rhoi arweiniad clir i Lywodraeth Cymru ar sut y dylid gweithredu yn y mater hwn.

Mae nifer o gynghorau cymuned/tref eisoes wedi eu diffinio eu hunain fel Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Dwysedd Uwch ac yn galw am rymoedd priodol, digonol i warchod ac atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol o fewn eu hardaloedd. Mae'r cynghorau hyn yn gweld y rhwydweithiau cymdeithasol-ieithyddol yn gwanychu wrth i strwythur a gwead eu bywyd cymunedol gael eu dryllio a'u tanseilio. Mae'r cymunedau hyn a llu o rai eraill dan fygythiad ac yn galw am gymorth i barhau fel cymunedau Cymraeg. A yw Llywodraeth Cymru – eu llywodraeth hwy eu hunain – yn fyddar i'w galwad?

Pwyswn arnoch i weithredu'n bwrpasol a chyda brys yn y mater tyngedfennol hwn inni fel cenedl. Byddem yn falch iawn o dderbyn eich ymateb i'n cais, gan obeithio'n fawr y byddwch yn rhoi gwybod inni eich rhaglen weithredu gyda golwg penodol ar y cam cyntaf allweddol, sef dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych gynted ag y bo modd.

Yn gywir,
Ieuan Wyn (ar ran Cylch yr Iaith)
Jeff Smith (ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg)
Heini Gruffudd a Dylan Bryn Roberts (ar ran Dyfodol i'r Iaith)
Catrin Roberts (ar ran Hawl i Fyw Adra)
Sian Parri (ar ran Cyfeillion Llŷn)

# Gair neu ddau
## John Pritchard

## Gweld

Tebyg bod tuedd ym mhawb i weld rhai pethau'n glir ond i fethu â gweld pethau eraill o gwbl. Mae hynny'n sicr yn wir amdanaf fi. Dwi'n hoffi meddwl fod gen i lygaid eithaf da i weld brychau a chamgymeriadau mewn darn o waith ysgrifenedig. Dro'n ôl, mi ofynnwyd i mi fwrw golwg dros gyfrol o wasanaethau ar gyfer gweinidogion ac eraill sy'n arwain oedfaon. Roedd yn waith manwl iawn, a threuliais oriau'n sicrhau, hyd orau fy ngallu, bod pob llythyren ac atalnod yn eu lle. Dychmygwch fy siom pan gyhoeddwyd y gyfrol heb i'r un o'r cywiriadau a wnes i gael eu cynnwys am fod y wasg wedi anfon y ddogfen anghywir at yr argraffwyr!

Ond dyw'r llygaid sy'n craffu ar eiriau ddim bob amser yn gweld yr hyn sydd o'u cwmpas. Un gwael ydw i, er enghraifft, am sylwi ar ryfeddodau byd natur. Ac mi rydw i o'r herwydd yn eiddigeddus o bobl sy'n llygaid ac yn glustiau i gyd wrth fynd am dro. Sylwais i ddim ar y creadur bach ar ochr y lôn yr wythnos o'r blaen. Mi faswn i wedi cerdded heibio iddo pe na fyddwn wedi cael fy siarsio i oedi ac edrych ar y twrch daear bychan oedd yn cuddio yng nghanol y tyfiant rhwng y lôn a'r gwrych. Un ifanc iawn mae'n debyg, ac allan o'i gynefin tanddaearol am ryw reswm. Yn rhyfeddol, ac fel petai'n gwybod mai dyna'r tro cyntaf i mi fod yn ddigon agos at yr un o'i dylwyth i fedru sylwi ar y trwyn main a'r got ddu a'r crafangau cryf, mi arhosodd yn llonydd a bodloni hyd yn oed i gael tynnu ei lun.

Ac nid pawb chwaith a wêl ryfeddod yr Efengyl. Mae honno yno i bawb ei gweld, ond mae'r mwyafrif yn mynd heibio heb sylwi arni. Mae rhai'n gwybod amdani ac yn gyfarwydd â'i stori, ond yn gwbl ddidaro yn ei chylch, ac wedi hen benderfynu nad yw Iesu Grist o ddiddordeb iddyn nhw. Ac er gwaethaf pob anogaeth i oedi ac edrych ar Iesu, maen nhw'n argyhoeddedig na fedr gynnig dim iddyn nhw. Mae pob sôn amdano a'i waith yn ddiflas a diystyr ac amherthnasol yn eu golwg, a does ganddyn nhw na'r awydd na'r bwriad i ystyried yn ddyfnach.

Ond yn yr un neges am Grist mi wêl eraill y rhyfeddod mwyaf. Mi welan nhw ei brydferthwch a'i fawredd. Mi welan nhw'r Un a adawodd ei gynefin nefol er mwyn dod i ganol tyfiant a llanast ein byd, nid i guddio ond i'w ddangos ei hun yn gyfaill a brawd i bawb a fyddai'n ei groesawu felly. Mi welan nhw'r Un sy'n ei gynnig ei hun yn achubwr i bwy bynnag sy'n credu ynddo. Mi welan nhw neges sydd werth ei chofleidio a pherson sy'n cynnig y bywyd gorau a'r gobaith pennaf.

A beth sy'n egluro'r gwahaniaeth? Pam fod yr Efengyl yn golygu popeth i rai ond dim byd o gwbl i eraill? Nid tueddiad mewnol, ysbrydol. Nid diddordeb greddfol ym mhethau Duw. Nid gogwydd naturiol ato. Mae'r Efengyl a'r cyfan a gyhoedda am Iesu Grist yn ddirgelwch ac ynfydrwydd i bawb hyd nes i Dduw eu hamlygu iddyn nhw. Dim ond Duw ei hun all roi i ni lygaid ffydd i weld rhyfeddod geiriau, gweithredoedd, marwolaeth ac atgyfodiad ei Fab. Mae'r agoriad llygaid hwnnw'n brofiad dramatig i rai, ond nid felly i bawb. Ond sut bynnag y digwydd, rhodd Duw ei hun ydi'r gweld hwn bob amser.

# Byd Bychan! (gan Arthur Rowlands)

Fe godais lyfr hunangofiant Elvey MacDonald i fyny yn rhad yn siop Tenovus yn y Bala rhai wythnosau yn ôl bellach a mynd ati gydag awch i'w ddarllen gan fod gennyf ddiddordeb mawr yn hanes y Wladfa a Phatagonia ers blynyddoedd lawer. Cefais y fraint o ymweld â'r Wladfa gyda chriw bychan o gyfeillion yn 1995, deg mlynedd ar hugain yn ôl bellach! Ble'r aeth y blynyddoedd.

Wrth ddarllen hanes cynnar Elvey MacDonald – a oedd yn teimlo'n gyfarwydd iawn – cefais fy atgoffa o'r cysylltiad rhwng ei deulu ef â Ddyffryn Ogwen.

Dyma'r hanes yn fyr! Daeth gŵr o'r enw Edwyn Cynrig Roberts a'i deulu o'r Wladfa yn ôl i Gymru, a do i fyw i Fethesda, dros dro beth bynnag. Daeth Edwyn yn ôl i sefydlu cwmni a fyddai yn cloddio am aur yn yr Andes. Roedd Lloyd George ei hun wedi buddsoddi yn y fenter ynghyd a sawl Aelod Seneddol arall a'r Parch. Michael D.Jones, un o brif ladmerydd am sefydlu gwladfa Gymreig yn y lle cynta', gyda 5 shâr! Dywedir mai y rheswm dros iddo ddewis sefydlu ym Methesda oedd ei gyfeillgarwch â rheithor St,Anns y Canon W.D.Thomas. Roedd wedi dod a'i deulu gyda fo er mwyn iddynt gael addysg pellach yng Nghymru fach.

Roedd Edwyn Cynrig yn un o sylfaenwyr y Wladfa ac yn wir, yn arwr yn yr orchest o sefydlu gwladfa o gwbl, Cafodd ei eni yng Nghilcain, Sir Fflint yn 1837, mab hynaf John a Mary Kendrick, nee Hughes. Bu John Kendrick, ei dad, farw yn 1839 a gadawyd Mary yn weddw ifanc â dau o feibion, Edwin a John.

Ail briododd Mary yn 1842 â David Roberts o Cilcain a mabwysiadodd y dau fachgen y cyf-enw Roberts. Cawsant ddau fab, Thomas a Josiah cyn iddynt ymfudo fel teulu i Wisconsin yn 1847. Ganwyd merch iddynt yno a alwyd yn Anna Bella. Gweler llun o'r Edwyn ifanc yn ei lifrai tra'n byw yn Wisconsin – mawr yw fy niolch i Mr.Bob Puw am nifer o luniau o Edwin a'i berthnasau.

Aeth y Parch.Michael D.Jones ar ymweliad â'r capeli Cymraeg yn yr Amerig yn 1848, ar gychwyn ei yrfa yn y weinidogaeth, gan blannu'r syniad o Wladfa Gymraeg ym meddwl yr Edwyn ifanc ymysg eraill. Ymhen amser, daeth yntau drosodd i Gymru i genhadu dros wladfa Gymraeg hefo Michael D.Jones ac fel y gwyddom y canlyniad oedd i lond llong o Gymry hwylio am dde America yn y Mimosa yn 1865. Mae canmoliaeth mawr i Edwyn Cynrig, sylwer ei fod wedi Cymreigio ei enw erbyn hyn, a gweithiodd yn galed dros ei gymuned a'i phobl. Edwyn oedd un o'r prif gymeriadau ac arweinyddion wrth sefydlu'r Wladfa.

Yn 1866 mae'n priodi ag Anne Jones merch a ddaeth drosodd gyda'i theulu ar y Mimosa yn enedigol o Mountain Ash yn Ne Cymru ymysg y fintai gyntaf. Hyd y gwela' i cawsant wyth o blant. Felly cadwyd Anne yn brysur yn y cartref tra y bu Edwin yn adeiladu ffermydd llwyddiannus a'i galluogodd i anturio i odre'r Andes i chwilio am aur – y rheswm dros ei gael yma ym Methesda.

Tra ym Methesda, mae cofnod o Edwyn yn ymaelodi fel aelod o'r Seiri Rhyddion, wedi ymuno ar Ionawr 10fed, 1893 gyda St.David's Lodge, Bangor



ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth annisgwyl. Mae'n debyg y tybiai byddai hynny yn fantais iddo yn ei ymdrech i gael cefnogwyr i'w fenter! Roedd hefyd ynghanol y gorchwyl o gyhoeddi hanes sefydlu y Wladfa.

Roedd ei gyfrol gyntaf 'Hanes Dechreuad y Wladfa Gymreig yn Mhatagonia' newydd ei chyhoeddi ac yntau ar gychwyn yn ôl am Batagonia ar long o Lerpwl gyda 400 o gopïau yn ei feddiant – gweler wyneb-dalen y llyfr a gafodd ei argraffu ym Methesda gan Mr. J.F.Williams, 31 Stryd Fawr isod. ( Gellwch ddarllen y llyfr ar y wé ar safle y Llyfrgell Genedlaethol.) Ond ar y nos Sul (19/09/1893) cyn cychwyn fe gafodd drawiad calon a bu farw yn ddi-symwth dim ond yn 55 oed. Mae wedi ei gladdu ym mynwent St.Anns. Wele llun o'i garreg fedd isod.

Rhaid i mi nodi fy niolch i Andre am ei gymorth a'i gopi o luniau bedd Edwyn a llun clawr ei lyfr. Yn anffortunus, oherwydd cyflwr difrifol y rhan hynafol yma o'r fynwent methais i dynnu llun ohoni. Mae yn warthus fod cymaint o'n mynwentydd mewn cyflwr mor erchyll ac yn codi cywilydd arnom fel Cymry. Gosodwyd tabled ar ei fedd yn 1983 gan mlynedd ar ôl ei farwolaeth: 'Er Cof am Edwyn Cynrig Roberts Ar ganmlwyddiant ei farwolaeth oddi wrth ei ddisgynyddion ym Mhatagonia 17fed Medi 1993'. Gweler lluniau o'r bedd.

(I'w barhau yn rhifyn Hydref)




## Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

**Llyn Celanedd**

Dros yr haf datganodd y gangen gefnogaeth lawn i'r ymgyrch i adfer yr enw Cymraeg Llyn Celanedd ar warchodfa natur Aberogwen ger Talybont. Mae'r safle unigryw hwn, dan ofal Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, yn gartref i amrywiaeth o adar ac yn gyrchfan boblogaidd i filoedd o bobl. Ers blynyddoedd mae wedi cael ei adnabod fel *The Spinnies*, ond mae'r enw Cymraeg traddodiadol, Llyn Celanedd, yn rhan annatod o'n hanes lleol ac yn haeddu cael ei adfer. Credwn fod enwau lleoedd yn rhan o'n hetifeddiaeth ddiwylliannol, ac y bydd ailsefydlu'r enw Cymraeg yn gam cadarnhaol ac yn gyson â gwaith diweddar Llywodraeth Cymru a'n Parciau Cenedlaethol i ddiogelu enwau Cymraeg.

**Noson gymdeithasol**

Hoffem eich gwahodd i gyd i **noson gymdeithasol am 7 o'r gloch nos Iau, Hydref 16** yn Nhŷ Mo, ar y Stryd Fawr ym Methesda. Bydd cwis tafarn hwyliog yng nghwmni'r ymgeiswyr fydd yn sefyll dros Blaid Cymru yn nhalaith newydd Bangor, Conwy a Môn yn etholiad Senedd Cymru ym mis Mai – croeso cynnes i bawb. Mae'r noson yn gyfle gwych i ddod ynghyd fel cymuned a chefnogi ein hymdrechion lleol.

# CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

## RHAGLEN 2025/2026

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr **ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch AG EITHRIO** cyfarfod mis Hydref. Cynhelir y cyfarfod hwnnw ar nos Lun cyntaf y mis, sef **6 Hydref 2025**. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol am 7.00 o'r gloch, ar nos Lun 10 Tachwedd 2025, a bydd y ddarlith yn cychwyn am **7.15 o'r gloch**.

**Lleoliad y cyfarfodydd**:
**Wyneb yn wyneb**: Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda.
Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com

**Rhithiol tros Zoom**: Cofrestrwch efo esme@ogwen.org.
Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf.

### 2025

NOS LUN 6 HYDREF
7.00 **Beth Jones** – *Hanes Peldroed yng Ngogledd Cymru*

NOS LUN 10 TACHWEDD
7.00 **Y Cyfarfod Blynyddol**
7.15 **Dafydd Roberts** – *Gwaith Nwy Bethesda*

NOS LUN 8 RHAGFYR
7.00 **Howard Huws** – *Cloddio am Fetalau yn Nyffryn Ogwen*

### 2026

NOS LUN 12 IONAWR
7.00 **Dr David Jenkins** – *Llongau'r Chwarelwyr*

NOS LUN 9 CHWEFROR
7.00 **Dr David Jenkins** – *Llongau'r Chwarelwyr*

NOS LUN 9 MAWRTH
7.00 **Lowri Williams** – *Cefnogwyr y Ddeiseb Heddwch ym Methesda*
**(Darlith Goffa Rhiannon Rowlands)**

FFI AM Y CWRS
Oedolion £10.00. Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol – £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy:
BACS: 40-16-02 41386212, neu gydag arian parod ar y noson

SWYDDOGION Y GYMDEITHAS YN YSTOD 2024/25:
**Cadeirydd**: Y Prif-fardd Ieuan Wyn
**Trefnydd / Trysorydd**: Dafydd Roberts, (01248) 600798
dafydd@caerwern.cymru
**Ysgrifennydd**: Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda
(01248) 601415 garethllwyd197@btinternet.com
**Llywyddion Anrhydeddus:**
Dr John Llywelyn Williams ac Andre Lomozik






# Adroddiad Disglair gan Estyn i Ysgol Penybryn ac Ysgol Abercaseg, Bethesda

Mae Ysgol Penybryn ac Ysgol Abercaseg wedi derbyn canmoliaeth uchel yn eu harolygiad diweddar gan Estyn, gyda'r arolygwyr yn canmol ymroddiad y ffederasiwn i ddarparu cwricwlwm eang ac ysgogol sy'n dwysáu dealltwriaeth disgyblion o'u cymuned, yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn eu hannog i edrych ymlaen at y dyfodol yn hyderus.

Prif bwyntiau'r adroddiad:

- Cwricwlwm sy'n dathlu treftadaeth unigryw'r ardal ac yn annog disgyblion i anelu at eu dyheadau yn y dyfodol.
- Cynnydd cryf mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol, gyda disgyblion yn gadael yr ysgol yn gyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Prosiectau mentergarwch sy'n datblygu llythrennedd ariannol, gwaith tîm a chreadigrwydd, gan gynnig profiadau bywyd go iawn gyda busnesau lleol.
- Ethos cynnes a gofalgar, gyda staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol sy'n cefnogi lles, ymddygiad ac agweddau cadarnhaol at ddysgu.
- Cydweithio cryf ar draws y ffederasiwn, gan sicrhau bod disgyblion yn elwa ar gyfleoedd addysgu a dysgu o safon uchel.

Roedd yr arolygwyr yn canmol brwdfrydedd y staff, sy'n rhannu gweledigaeth y pennaeth i feithrin dinasyddion egwyddorol a mentrus sy'n falch o'u cymuned a'u hiaith. Nodwyd hefyd fod disgyblion y ddwy ysgol yn dangos ymddygiad rhagorol, agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn cymryd rhan mewn rhedeg yr ysgol drwy grwpiau arbennig a llais y disgyblion.

Dywedodd y Pennaeth, Mr Gethin Elis Thomas, "Rydym wrth ein bodd fod Estyn wedi cydnabod cryfderau'r ffederasiwn. Mae llwyddiant Ysgol Penybryn ac Ysgol Abercaseg yn deillio o gydweithio rhwng staff, disgyblion, teuluoedd a'r gymuned. Gyda'n gilydd, rydym yn magu plant sy'n falch o'u cymuned ac yn hyderus ynglŷn â'u dyfodol."

Ychwanegodd Cadeirydd y Llywodraethwyr, Mrs Robyn Meredydd, "Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'n wych y gwaith caled a'r ymroddiad ar draws y ffederasiwn. Mae'n dangos fod ein disgyblion yn derbyn addysg sydd wedi'i wreiddio yng Nghymuned Bethesda, ond sy'n rhoi'r sgiliau a'r hyder iddynt ffynnu yn y byd ehangach."

Dywedodd disgybl Blwyddyn 6, "Rydyn ni wrth ein boddau gyda'r prosiectau a'r holl brofiadau tu allan i'r dosbarth rydym yn ei dderbyn achos maen nhw'n ein helpu i ddysgu sgiliau newydd ac yn gwneud i ni deimlo'n barod ar gyfer y dyfodol. Rydyn ni'n falch o Ysgol Abercaseg ac Ysgol Penybryn ac o siarad Cymraeg bob dydd."

Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod Ysgol Penybryn ac Ysgol Abercaseg yn ysgolion sy'n rhan allweddol o gymuned Bethesda ond sydd hefyd yn edrych allan i'r, gan sicrhau bod disgyblion yn falch o'u treftadaeth ac yn barod i wynebu'r dyfodol.

# YSGOLION ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN

Croeso cynnes yn ôl i holl blant a staff Ysgol Abercaseg. Croeso o'r newydd hefyd i griw'r dosbarth meithrin sydd i gyd wedi setlo'n dda ac i gyd yn mwynhau eu boreau acw. Mae pawb yn edrych ymlaen at flwyddyn ysgol arbennig llawn dysgu, mwynhau, a chael llu o brofiadau gwerthfawr.

**Canmoliaeth**

Llongyfarchiadau enfawr i holl blant a staff yr ysgol ar dderbyn adroddiad arbennig yn dilyn ymweliad diweddar gan Estyn. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r holl waith mae'r staff wedi ac yn parhau i wneud yn ddyddiol yn ein hysgol. Rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am eu hymrwymiad a'u gwaith diflino. Hoffem hefyd ddiolch i chi, rieni a theuluoedd, a chymuned Bethesda am eich cefnogaeth barhaus. Mae'r bartneriaeth gryf rhyngom ni wedi'i hadlewyrchu'n glir yn yr adroddiad, ac mae'n gyfraniad mawr at lwyddiant pob plentyn. Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb!

**Hwyl yr Haf**

Trefnodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 Ffair Mentergarwch Hwyl yr Haf. Roedd llawer o waith cynllunio, cyfrifo, prisio a gwneud posteri i wneud o flaen llaw. Ar y diwrnod bu pawb yn gyfrifol am stondin yn gwerthu hufen ia, lolis ia, da-das, breichledi, balwns, tatŵs a theganau. Yna bu pawb yn brysur yn cyfrifo'r arian ac yn teimlo'n falch iawn o'r elw a wnaethpwyd.

**Mabolgampau**

Cafwyd bore gwych o fabolgampau unwaith eto yn Nhreborth. Roedd yr haul yn gwenu a llawer o rieni wedi dod i gefnogi. Llongyfarchiadau i bawb ddaeth i'r brig ac i bob disgybl am gymryd rhan.



**Ffilm Ffarwel Blwyddyn 6**

Roedd Neuadd Ogwen dan ei sang ar Orffennaf y 14 eg, pawb wedi ymgynnull i fwynhau Ffilm Ffarwel Blwyddyn 6 -"Siambl y Siwgr Lwmps". Cafwyd ymateb anhygoel i'r ffilm unwaith eto eleni, a phob un ym mlwyddyn chwech wedi cymryd rhan, a gwneud eu gwaith mor arbennig. Diolch o galon i bawb a fu'n rhan o greu'r ffilm unigryw, 51 munud o hyd a oedd mor broffesiynol yn ein barn ni!!

Braf hefyd oedd cael dathlu llwyddiannau ein disgyblion yn y seremoni wobrwyo ar ddiwedd y ffilm. Diwrnod i'w gofio i blant blwyddyn 6 a'u teuluoedd. Dymunwn pob llwyddiant i chi ar gyfer y dyfodol, a diolch am fod yn griw mor wych!!

**Pnawn Perffaith**

Trefnodd y Grŵp Lles Bnawn Perffaith ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Cafwyd cinio arbennig o fyrger a sgoldion i ddechrau'r prynhawn. Yna roedd gweithgareddau amrywiol i ddiddannu pawb megis cornel gelf, cornel chwaraeon, cornel gemau bwrdd, salon gwallt a stondin gacennau. Dewisodd y Grŵp Lles gyfrannu'r arian o'r stondin gacennau i Hosbis Dewi Sant yn dilyn cyflwyniad diweddar yn yr ysgol am waith yr hosbis.

Diolch yn fawr i Londis a Tesco Bethesda am eu cyfraniadau o greision, cacennau, tip tops a diod ar gyfer y prynhawn.

**Gweithdy Mei Mac**

Cafodd flwyddyn 6 ddiwrnod gwerth chweil yn ddiweddar yng nghwmni'r bardd, Mei Mac. Cawsom gyfle yn ystod y bore i fynd ati i greu cerdd yn seiliedig ar Fethesda, gan ganolbwyntio ar gyfnod y streic. Bydd ein cerdd yn ran o gyfanwaith prosiect dalgylch, ac edrychwn ymlaen yn fawr iawn i gael cyfle i ddarllen y cerddi eraill. Yn ystod y prynhawn, cawsom wers o ddarlunio cartwnau – prynhawn hynod o ddifyr! Edrychwn ymlaen i ddarllen a mwynhau gweddill y cerddi. Diolch o galon, Mei Mac.



**Criced yng Nghaerdydd**

Aeth tîm criced blwyddyn 3 a 4 Ysgol Penybryn yr holl fordd i Gaerdydd i chwarae yn rownd derfynol Twrnament Criced yr Urdd. Roedd yn brofiad anhygoel cael chwarae yn y stadiwm yng Ngerddi Soffia. Ennill 2 gêm a cholli 2 gêm wnaethom ar y diwrnod.Cafodd pawb hwyl ac fe fydd yn brofiad y byddwn yn ei gofio am byth. Diolch i Barbwr Ogwen a Sgaffaldiau Mabon am noddi ein crysau-t, a Mrs Ffion Thomas a'n rhieni am roi eu hamser i fynd a ni i Gaerdydd.
Gan Enlli, Belle, Loti, Greta a Swyn.

## Glasinfryn a Chaerhun

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Vivek ac Azlina Thuppil, Tŷ Helygan, Glasinfryn ar enedigaeth merch fach, Aire, ym mis Gorffennaf. Mae Vivek yn gefnogol iawn i weithgareddau y pentref ac yn aelod o Bwyllgor y Ganolfan, wedi dysgu Cymraeg ac yn ei siarad yn rhugl erbyn hyn.

**Cystadleuaeth Cneifio Rhyngwladol**
Ym mis Gorffennaf cynhaliwyd Cystadleuaeth Cneifio Rhyngwladol yng Nghwm Coch, Beddgelert.Un o'r cystadleuwyr oedd Guto Griffith, Bryn Gwredog Isaf, Waen Wen. 13 oed ydi Guto a daeth yn 3ydd yn cneifio gyda gwellau. Llongyfarchiadau mawr i ti Guto ar dy lwyddiant arbennig! Braf yw gweld pobl ifanc yn cymeryd diddordeb i ddal ymlaen gyda'r grefft hynafol yma.



**Llongyfarchiadau**
Yn ystod yr haf bu Lydia ac Elsi Griffiths, Caer Wredog, Waen Wen yn cystadlu gyda'u ceffylau yn Sioe Eglwysbach, Glan Conwy. Enillodd y ddwy wobrau mewn gwahanol gystadlaethau marchogaeth. Da iawn chwi genod!

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Carol Williams, Fferm Tyddyn Heilyn, Caerhun a gollodd ei brawd Gareth Wyn Williams, o Bryn Du, Ynys Môn yn Ysbyty Walton, Lerpwl ar 2 Gorffennaf yn 69 oed. Cofiwn am y teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Bingo**
Wedi hoe bach dros yr haf bydd y Bingo Bach yn ail ddechrau ar nos Wener, 5 Hydref yn y Ganolfan am 7yh. Bydd elw y noson yn mynd tuag at Y Ganolfan. Gwerthfawrogir unrhyw gyfraniad at y raffl, bingo a thombola tuag at y noson, ond yn bennaf oll croesawn yr hen ac ifanc atom am noson o hwyl!

**Dymuniadau Gorau**
Bydd amryw o bobl ifanc yn symud i ysgol uwchradd neu Goleg neu ddechrau mewn gwaith. Llongyfarchiadau i bob un a lwyddodd yn eu arholiadau yr haf yma a phob dymuniad da i chwi i gyd yn y cam nesaf o'ch bywyd.

## Arddangosfa Arlunio Grŵp Arlunio



Rhwng 21 a 23 Awst cynhaliwyd arddangosfa gan Grŵp Arlunio Glasinfryn yn y Ganolfan. Dangoswyd dros 55 o luniau o bob cyfrwng gan yr aelodau. Yn ystod y tri diwrnod daeth tua chwe deg o bobl i weld ac i fwynhau yr arddangosfa. Ar hyn o bryd mae naw aelod yn y Grŵp a daw tiwtor, sef Chris Hull unwaith bob mis i hyfforddi. Yr ydym yn awyddus i gael aelodau newydd. Os am ymuno dowch draw i'r Ganolfan unrhyw fore Gwener rhwng 10yb-12.30yp – cewch groeso mawr a chofiwch nid oes rhaid bod yn brofiadol i ddechrau.



## Cylch Glasinfryn

Ar bnawn crasboeth ar 9 Gorffennaf aeth aelodau'r Cylch i eglwys Sant Grwst, Llanrwst lle y cafwyd hanes yr eglwys hynafol yma gan Bleddyn Hughes. Braf iawn oedd cael bod tu mewn i'r eglwys tawel ac oer yn gwrando ar Bleddyn yn rhoi sgwrs a'n tywys o amgylch yr adeilad, 'roedd ei wybodaeth am yr hanes yn wych. Mae'r eglwys wedi cael ei adnewyddu yn ddiweddar ac 'roedd pawb yn rhyfeddu ar y gwaith cywrain a chrefftus yno. Yn dilyn y sgwrs cafwyd paned a chacen werth chweil wedi eu darparu gan aelodau yr eglwys. Diolchwyd i Bleddyn a'r tîm gan Margaret Owen. Bydd gweithgareddau Cylch yn ail ddechrau ar 10 Medi yn y Ganolfan pan gawn sgwrs ac arddangosfa gosod blodau gan Lieneke van der Veen o Bontrug. Yna ar 10 Hydref am 2yp bydd Stephen Ransome o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn siarad am y Warchodfa Natur yn Abergwyngregyn. Croeso cynnes iawn i bawb ymuno efo ni.

**Gwobrau Llyfr y Flwyddyn i Ddyffryn Ogwen**
Rydym yn hynod o falch bod dwy o ferched Dyffryn Ogwen wedi dod yn fuddugol yng nghystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn eleni. Gwenno Gwilym yn y wobr ffuglen a gwobr barn y Bobl am V+Fo, a Meleri Davies yn y wobr barddoniaeth am Rhuo Ei Distawrwydd Hi. Cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu yn y Fic ar 31 Gorffennaf. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonoch.

## Pryderon ynghylch amodau gwaith a chefnogaeth gyhoeddus i Zip World

Mae adroddiad annibynnol newydd yn tynnu sylw at gyflogau ac amodau gwaith yn Zip World. Mae'r canfyddiadau'n codi cwestiynau difrifol ynghylch sut y caiff arian cyhoeddus ei ddyrannu a pha safonau sy'n ofynnol gan gwmnïau sy'n derbyn cymorth o'r pwrs cyhoeddus.

Yn ôl yr adroddiad, mae o leiaf 85% o weithwyr ym Methesda a Blaenau Ffestiniog ar gontractau 'oriau sero'. Mae hyn yn golygu bod risgiau a newidiadau yn y galw tymhorol yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r gweithlu, gan adael llawer gyda chyflogau ansicr ac amrywiol.

Mae'r adroddiad hefyd yn dangos fod cost cyflogaeth gyfartalog Zip World yn sylweddol is na chwmnïau twristiaeth Cymreig eraill sy'n gweithredu ar sail fwy "cyfrifol yn gymdeithasol". Enwir busnesau

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

Ar Fedi 29ain bydd yn ddiwrnod Sant Mihangel a'r haf wedi hen gefnu arnom. Ambell i flwyddyn tua'r adeg hon cawn rhyw ychydig ddyddiau braf a chynnes a'r enw a roddwn i'r cyfnod bach yma ydy 'ha' bach Mihangel' ac mae pawb yn hapus iawn pan fydd hyn yn digwydd a dywedwn ei fod yn 'torri'r' gaeaf i ni. Un o'r blodau a welwn yn yr haf yr amser yma ydy'r 'ffarwel haf' a'u henwau hwy yn Saesneg ydy *michaelmas daisy* sy'n cynnwys yr enw'r un sant Mihangel. Felly pan fyddwch yn darllen y golofn gobeithio y cawn ni ryw ha' bach Mihangel i dorri'r gaeaf i ni.



## Ambell Air ac Ymadrodd

**Cwta.** Rhywbeth wedi ei dorri'n fyr ydy hwn. Trywsus cwta ydy trywsus byr – o'i gymharu efo trowsys llaes (un hir). Ystyr 'bod yn gwta' ydy ymddwyn yn sarrug a digymwynas. Hynny ydy, peidio â thrin rhywun yn barchus drwy dynnu gwyneb, neu ddweud dim ond ychydig eiriau pan fyddai rhywun yn disgwyl mwy o ymateb.

**Baglu mynd.** Rhyw gerdded digon blêr ac ansicr – "Rhyw faglu mynd oedd hi." Mae yna ddywediad '**baglu byw'** sy'n disgrifio rhywun neu rywrai yn wynebu trafferthion – "Mae hi'n bechod drostyn nhw. Baglu byw maen nhw druan. Mae'r creaduriaid yn ei chael hi'n anodd."

**Paldaruo.** Mae'n bosib bod hwn wedi dod o'r gair 'baldorddi. Ei ystyr ydy siarad lol; mwydro – "Wel, roedd o'n paldaruo, a pawb wedi cael llond bol ohono fo!"

**Cael daliad.** Cwarfod rhywun neu rywrai ydy ystyr hwn – "Yn ddiweddar ges i ddaliad efo hen ffrind imi, a cha'l amsar difyr yn ei chwmni"

**Pàs.** Ystyr hwn ydy cael cludiant fel teithiwr, neu gael eich cario'n gorfforol – "Wyt ti isio pàs i Fangor?" "Roedd y plant yn rhoi pàs ar gefn i'w gilydd."

**Cono.** Defnyddir hwn i gyfeirio ar hen ŵr yn gyffredinol, ond mae hefyd yn medru cael ei ddefnyddio i ddisgrifio dyn sy'n dipyn o gymeriad ac yn 'dipyn o bry' neu ddyn sy'n slei – "Bydd di'n ofalus sut wyt ti'n delio efo'r hen gono 'na."

**Dwch.** 'dywedwch' wedi ei dalfyrru ydy hwn, ac rydan ni'n ei ddefnyddio fo ar ddiwedd cwestiwn – "Pam nath o dorri ei wallt fel'na, dwch?"

**Llwytyn.** Rhywun gwelw – y llwyd ei wedd – oherwydd gwaeledd neu wendid cyffredinol – "Ew, mae hi'n llwytyn ers tro. Dydi hi ddim yn dda o gwbwl, ddwedwn i."

**Palu c'lwydda.** Ystyr hwn ydy dweud celwyddau'n ddiddiwedd – "Paid â gwrando arni hi. Mae hi'n palu c'lwydda drwy'r amser."

**Goets gadair.** Dyma ddywedwn ni am gadair olwynion.

**Toddi'n bwll.** Pan fyddwn yn teimlo'n boeth ofnadwy byddwn yn dweud "Ew, mi fydda' i wedi toddi'n bwll yn y gwres 'ma."

**Byw ar y gwynt/Byw ar drugaradd.** Bod heb fawr o bres ydy hyn – "Mae'r tad wedi colli ei waith ers tro. Byw ar y gwynt maen nhw fel teulu."

**Mul yn y Gran Nash.** Cyfeiriad at y Grand National, y ras geffylau enwog. Os na fydd unrhyw obaith gan rywun i lwyddo i wneud rhywbeth, mi ddwedwn ni "Does gynno hi ddim gobaith mul yn y Gran Nash."

**Wedi torri.** Rwyf eisoes wedi crybwyll y gair torri uchod, ond defnyddiwn y gair hefyd i ddisgrifio yr olwg a gawn ar berson. " Doeddwn i ddim wedi ei weld ers talwm, ew mae o wedi torri." Mae hyn yn golygu nad ydy'r person yn edrych yn iach iawn neu wedi gwaelu ers pan y gwelwyd o cynt.

**Howdidw.** "Welsoch chi rioed y fath howdidw!" dyna'r gair i'w ddweud os ydych eisiau cyfleu bod rhywbeth amheus neu anghyfarwydd wedi digwydd.

**Pry pic.** "Wyt ti rêl pry pic!" medda ni wrth rywun sydd yn methu bod yn llonydd mewn un lle. Tybed beth yn union ydy pry pic, os y gwyddoch beth am roi gwybod i mi.

**Cysylltwch a chroeso Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN – 07443047642 – maryeds@hotmail.co.uk**

fel Portmeirion a Bluestone, sy'n cynnig swyddi tymhorol llawn amser gyda chyflogau a thelerau gwell. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pam fod Zip World, er gwaethaf gwneud elw sylweddol dros y blynyddoedd, yn parhau i ddibynnu ar gontractau llai ffafriol i'w staff.

Yn ogystal â'r pryderon ynghylch y gweithlu, mae'r adroddiad yn cysylltu'r mater â pholisi datblygu economaidd rhanbarthol. Mae cais y cwmni am grant cyhoeddus sylweddol – sef £6.2 miliwn ar gyfer prosiect "Antur Gyfrifol" – yn destun dadl oherwydd y ffordd y mae'r gweithwyr yn cael eu trin. Codir y cwestiwn a ddylai cwmni sy'n gwneud elw cryf a sy'n dibynnu ar gontractau ansicr dderbyn cymorth ariannol cyhoeddus o'r fath.

Mae hyn yn taro ar y gwrthdaro posibl rhwng amcanion polisi Llywodraeth Cymru, sy'n hyrwyddo egwyddorion "Cyflogaeth Deg", a'r penderfyniadau ariannol a wneir gan gyrff rhanbarthol fel Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Os yw arian cyhoeddus i'w ddefnyddio i gefnogi busnesau, mae'r adroddiad yn awgrymu y dylid gosod amodau clir er mwyn sicrhau fod y cymorth hwnnw'n cyfrannu at swyddi o ansawdd ac nid yn atgyfnerthu arferion ansicr.

Yn lleol, mae busnesau a sefydliadau cymunedol wedi mynegi pryder am effaith cytundebau 'oriau sero' ar weithwyr a'u teuluoedd. Er y caiff cytundebau hyblyg eu gweld fel ateb addas mewn rhai sefyllfaoedd, mae nifer yn dadlau y dylai cwmni mawr ac elwog fod mewn sefyllfa i gynnig telerau gwaith gwell a mwy sefydlog.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn gyson nad yw'n cefnogi defnydd annheg o gontractau dim oriau, ac yn annog cyflogwyr i ddarparu oriau gwarantedig lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae'r drafodaeth felly yn mynd y tu hwnt i un cwmni'n unig. Mae'n rhan o sgwrs ehangach am ddyfodol economi sylfaenol Cymru, am safonau gwaith teg, ac am gyfrifoldeb cymdeithasol cwmnïau sy'n elwa ar gefnogaeth ariannol gan y cyhoedd. Yn y pen draw, mae'r cwestiwn yn syml: os yw arian trethdalwyr i'w fuddsoddi mewn prosiectau twristiaeth, onid yw'n rhesymol disgwyl bod y swyddi a grëir yn rhai diogel, teg ac yn talu cyflogau digonol?

**Mae'r adroddiad llawn, *Cyflogau ac Amodau yn Zip World: Pump Dangosydd a Dau Gwestiwn*, ar gael i'w weld ar wefan Foundational Economy Research Ltd.**

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

## Pennaeth Newydd

Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn falch iawn o groesawu Pennaeth newydd, Mrs Kelly Morgan, sy'n dechrau ei swydd y tymor hwn. Mae ei phenodiad yn nodi carreg filltir hanesyddol, gan mai hi yw'r fenyw gyntaf i arwain Ysgol Dyffryn Ogwen fel pennaeth. Gyda dros 20 mlynedd o brofiad ym myd addysg, mae Mrs Morgan yn dod â chyfoeth o wybodaeth ac ymrwymiad cryf i lwyddiant ein disgyblion.

Ar ôl addysgu a rheoli mewn amrywiaeth o rolau ar draws gwahanol ysgolion a siroedd, mae hi'n dod â dealltwriaeth ddofn o sut i gefnogi ac arwain staff a disgyblion. Mae ei phenodiad yn nodi cyfnod newydd gyffrous i'r ysgol wrth iddi barhau i ymdrechu am ragoriaeth ym mhob maes.



Mrs Kelly Morgan, Pennaeth Ysgol Dyffryn Ogwen.

Mae Mrs Morgan yn angerddol am adeiladu perthnasoedd cryf â rhieni a gweithio'n agos gyda'r gymuned ehangach. Mae hi'n credu y gall ysgol sy'n galon i'w chymuned gael effaith barhaol a chadarnhaol ar fywydau pobl ifanc.

Dywedai Mrs Morgan: "*Rwyf yn gyffrous iawn i gael y fraint a'r anrhydedd o ymuno ag ysgol mor arbennig a chael y cyfle i ddod i adnabod disgyblion, rhieni, staff a chymuned ehangach yr ysgol. Rwyf yn angerddol iawn dros les ac addysg disgyblion. Mae fy ngweledigaeth yn glir iawn ar gyfer yr ysgol, sef sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ffynnu a chyrraedd eu potensial mewn amgylchedd ddiogel, hapus ac ysgogol.*"

Mae pawb yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn edrych ymlaen at yr egni, yr ymroddiad a'r arweinyddiaeth y bydd Mrs Morgan yn eu dwyn yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

## Canlyniadau Lefel A Rhagorol yn Ysgol Dyffryn Ogwen



Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn falch o ddathlu cyflawniadau rhagorol ei disgyblion yn arholiadau Lefel A ac UG eleni. Mae gwaith caled ac ymroddiad y disgyblion wedi'i wobrwyo gyda chanlyniadau rhagorol, sy'n adlewyrchu eu hymrwymiad a'u hymdrechion.

Bydd llawer o'r disgyblion nawr yn mynd ymlaen i barhau â'u hastudiaethau mewn prifysgolion ledled y DU, gan ddilyn ystod eang o gyrsiau a gyrfaoedd.

Dwedodd Mrs Delyth Griffiths, Pennaeth y Chweched Dosbarth;

"Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r ymdrech, y gwaith caled a'r ymroddiad a ddangoswyd gan ein disgyblion dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae eu llwyddiant yn haeddiannol, ac rydym yn hynod falch o bob un ohonynt."

Mae cymuned yr ysgol yn dymuno'r gorau i bob disgybl wrth iddynt gymryd y camau nesaf yn eu teithiau academaidd a phersonol. Llongyfarchiadau i bawb ar eich llwyddiannau.

## Dathlu Llwyddiant TGAU!

Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn falch iawn hefyd o longyfarch ei disgyblion Blwyddyn 11 ar ganlyniadau TGAU gwych eleni. Rydym yn canmol y gwaith caled a ddangoswyd gan ein disgyblion – ac rydym hefyd yn hynod ddiolchgar i'n staff ymroddedig am eu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

Rydym yn arbennig o falch bod cynifer o'n myfyrwyr wedi dewis dychwelyd i barhau â'u hastudiaethau yn ein chweched dosbarth. Mae eu hymrwymiad i ddysgu yn glod iddynt hwy ac i gymuned yr ysgol.

Yr wythnos hon, mae disgyblion y chweched dosbarth newydd wedi cymryd rhan mewn rhaglen anwytho, gan gynnwys gweithgareddau adeiladu tîm a sesiynau addysgiadol gan sefydliadau fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yr Urdd, a gweithdy ar gyllid personol.

Edrychwn ymlaen at eu cefnogi trwy gam nesaf eu taith addysgol.

# Bowls Bethesda efo Bys a Bawd

## Llwyddiant

Llongyfarchion i dîmau Bethesda ar Nos Lun a dydd Sadwrn ar eu llwyddiant yn cipio dau gwpan yn ystod yr haf hwn. Cipiodd y tîm nos Lun Gwpan Whitworth yng Nghricieth o dan eu capten Callum a chipiodd Tîm Dydd Sadwrn Gwpan Glynne Owen yn Llanfairpwll dan eu capten nhw, Ryan Short. Llongyfarchiadau i'r chwaraewyr ifanc ar eu camp ac mae gobaith am fwy i ddod.



Tîm Bowls Dydd Sadwrn Bethesda ar ôl ennill Cwpan Glynne Owen yn Llanfairpwll ym Mis Awst.

## Tymor caled

Blwyddyn galed gafodd y tîm p'nawn dydd Mawrth eleni ond llwyddwyd i guro Conwy ym Methesda ar Awst 26 o 6 gêm i 1 gyda chyfartaledd y pwyntiau o blaid Bethesda o 137 i 74. Digwyddodd hyn dan gapteiniaeth Heddwyn Morris, yn absenoldeb y capten rheolaidd. Tair buddugoliaeth yn unig ddaeth i ran y tîm hwn eleni, sef yn erbyn Caergybi, Cricieth a Chonwy a hynny adref. Hwn oedd y tymor cyntaf i'r tim gystadlu yn Adran A a bu chwarae yn yr adran honno'n gryn sialens i nifer o'r chwaraewyr. Er hynny, bu'n brofiad gwerthfawr a dymuna'r tîm ddiolch i Maldwyn am ei waith yn ystod y tymor.



Fred Buckley



Denzil Jones

Da hefyd oedd cael croesawu rhai chwaraewyr ieuengach fel Richard (Ringo) Jones, Derek (Man U) Roberts a Brynmor (Pererin) Jones i gynorthwyo'r tîm eleni. Does dim dwywaith mai'r chwaraewr mwyaf llwyddiannus yn y tîm ydy Denzil Jones ond mae Fred Buckley yn dynn ar ei sodlau. Dyma'r ddau hynaf yn y tîm hefyd gyda blynyddoedd o brofiad ac yn dal i chwarae'n gystadleuol.

# Gwarchod Enw Hanesyddol yr ymgyrch yn llwyddo



Llyn Celanedd

Yn dilyn ymgyrch gan grŵp lleol yn Nyffryn Ogwen a Chylch yr Iaith, mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi penderfynu defnyddio'r enw Cymraeg 'Llyn Celanedd' yn lle'r enw Saesneg 'The Spinnies' ar eu gwarchodfa natur yn Aberogwen.

Cafwyd cefnogaeth helaeth ac eang i'r alwad i ddefnyddio enw'r llyn sy'n ganolbwynt y warchodfa – yn unigolion, cyngorau cymuned/tref, cymdeithasau a sefydliadau lleol a chenedlaethol gan gynnwys cymdeithasau hanes lleol, Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, Cymdeithas Edward Llwyd, Clwb Mynydda Cymru, Menter Iaith Gwynedd, Mudiad Meithrin, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a Dyfodol i'r Iaith.

Yn ogystal â gwahodd unigolion a gwahanol gyrff i gefnogi, roedd yr ymgyrchwyr wedi creu fideo yn rhoi hanes Llyn Celanedd gyda nifer o gyfranwyr yn dadlau'r achos dros ddefnyddio'r enw Cymraeg. Cyflwynwyd y fideo i sylw'r ymddiriedolwyr ynghyd â dogfen yn crynhoi'r dystiolaeth hanesyddol.

Roedd Llyn Celanedd yn arfer bod y pwll olaf yn afon Ogwen cyn i gwrs yr afon gael ei newid yn nechrau'r 19G. Ystyr yr enw 'Llyn Celanedd' yw 'pwll y cyrff meirw', ac mae i'r llyn hanes pwysig. Yn yr oesoedd canol byddai cyrff aelodau ymadawedig teulu uchelwrol y Penrhyn yn cael eu cludo mewn cwch o Lyn Celanedd dros afon Menai i gladdfa neilltuedig yn Llanfaes ar arfordir Môn. Sefydlwyd y fynwent hon 800 mlynedd yn ôl ar gyfer aelodau teulu brenhinol Gwynedd ynghyd â theuluoedd uchelwrol y deyrnas. Claddwyd Siwan gwraig Llywelyn ap Iorwerth (Llywelyn Fawr), ac Elinor gwraig Llywelyn ap Gruffudd (Llywelyn ein Llyw Olaf) yno.




Hysbysfwrdd 'The Spinnies'

Rhoddodd Ystâd y Penrhyn yr enw 'The Spinnies' ar y coedlannau bychain a'r drysi ar lan Llyn Celanedd, a mabwysiadwyd yr enw gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru pan gafodd y warchodfa ei chreu.

Meddai Emyr Roberts, cydlynydd y grŵp lleol, "Rydym yn falch bod yr ymddiriedolwyr wedi cytuno'n unfrydol i newid yr enw, ac rydym yn ddiolchgar i'r holl unigolion a'r cyrff a gefnogodd ein cais. Roedd y fideo a greuwyd gan Rhys Parry, aelod o'n grŵp lleol, ac a gyflwynwyd i'r ymddiriedolwyr, yn allweddol yn yr ymgyrch."

Ar ran Cylch yr Iaith, dywedodd Ieuan Wyn fod yr ymateb i'r alwad wedi bod yn wirioneddol galonogol, a bod yr ymgyrchwyr yn edrych ymlaen at weld yr enw Llyn Celanedd yn llenyddiaeth ac ar hysbysfyrddau a gwefan yr ymddiriedolaeth, ac ar fapiau'r Arolwg Ordnans a chyrff eraill. Meddai, "Mae ein henwau lleoedd Cymraeg yn rhan hanfodol o'n treftadaeth, a rhaid eu gwarchod drwy eu harddel a'u defnyddio. Ein henwau lleoedd Cymraeg sy'n diffinio Cymru fel gwlad wahanol. Mae'n gyfrifoldeb arnom ni i gyd i'w diogelu, a rhaid i'n llywodraeth weithredu i'w gwarchod rhag cael eu disodli gan enwau Saesneg, fel sydd wedi digwydd yn y mynydd-dir ac ar hyd y glannau."

***Mae fideo Ymgyrch Llyn Celanedd i'w weld ar YouTube dan y teitl 'Llyn Celanedd'.***

**Y glaw yn dymchwel yn Llanfair**
Yn Llanfairfechan Ddydd Iau 28 Awst cynhaliwyd cystadleuaeth 'Knockout' i dimau. Yn y rownd gynderfynol roedd tîm Bethesda, Biwmares, Llanfairpwll a Chraig y Don. Chwaraeodd Bethesda dan arweiniad Heddwyn (Postmon) Morris gan fod y capten arferol, Maldwyn Pritchard, i ffwrdd.

Cyfarfu Bethesda â Chraig y Don, Pencampwyr Cynghrair Bowls Hŷn Gwynedd a Môn yn y gemau cyntaf ond collasant o drwch blewyn ar gyfartaledd pwyntiau i CyD. Roedd y tîm o Landudno yn cynnwys cyfran uchel o chwaraewyr bowls 'superleague'. Daeth y glaw i ddifetha'r diwrnod braidd ond Craig y Don aeth â hi yn erbyn Biwmares o bedwar pwynt yn y diwedd. Pob clod i Fethesda am gyrraedd mor bell. "Dwi'n hynod o falch o berfformiad tîm Bethesda heddiw," meddai Heddwyn, "achos er mor anodd oedd perfformio heb y capten arferol fe wnaethon nhw'n dda i ymladd chwaraewyr lefel uwch a hynny mewn tywydd difrifol."

**Gwaeledd** – Siom i bawb oedd clywed bod Heddwyn Morris, capten dros dro tîm bowlio hŷn Bethesda, wedi ei daro'n wael tra'n gwylio'r gystadleuaeth bowlio oddicartref rhwng tîm Dydd Sadwrn Bethesda a Chricieth. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Heddwyn.



Heddwyn (Postmon) Morris



# YSGOL TREGARTH

### Tripiau

Cafodd dosbarth Elidir Fach, Elidir Fawr ac Yr Aran hwyl yn sw Bae Colwyn cyn ddiwedd y tymor. Roedd yn ddiwrnod braf ac roedd pawb wedi mwynhau gweld yr anifeiliaid a chwarae yn y parc wrth gwrs! Diwrnod yng Nghaernarfon gafodd dosbarth Y Garn ac Yr Elen. Cafwyd bore yn llawn hwyl yn yr Hwylfan cyn cerdded draw i'r parc gwych sydd dros yr Abar. Yn amlwg, nid oedd posib mynd adref heb gael hufen iâ. Pleser oedd mynd â'r holl blant ar yr tripiau ac roedd pawb wedi ymddwyn yn arbennig o dda.

### Mabolgampau

Mae diwrnod y mabolgampau wastad yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ac roedd eleni yr un mor llwyddiannus. Bu'r plant yn rhedeg, neidio a thaflu drwy'r prynhawn gan fwynhau ennill ond yn bwysicach cymryd rhan a chael hwyl. Diolch i'r criw o rieni fu'n gwerthu diodydd a byrbrydau yn ystod y prynhawn, roedd yn dda eu cael ar ddiwrnod mor gynnes. Diolch hefyd i bawb wnaeth gyfrannu gwobrau i'r raffl, rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth bob amser.

### Ffarwelio

Roedd diwedd y flwyddyn ysgol yn gyfnod emosiynol iawn acw gan ein bod yn ffarwelio gyda nifer o'r staff. Yn gyntaf, rydym yn dymuno'r gorau i Mrs Caryl Evans a Mr Carwyn Roberts sydd yn ein gadael am gyfnod gan eu bod wedi derbyn secondiad i rolau eraill. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch. Roeddem hefyd yn ffarwelio'n fawr gyda dwy gymhorthydd, sef Miss Marian Hughes a Miss Lauren Jones. Mae'r ddwy yn cychwyn swyddi mewn ysgolion eraill ym mis Medi ac mae pawb yn dymuno'n dda iawn i chi ac yn diolch am eich cyfraniad i'r ysgol. Diolch hefyd i Miss Cadi Williams fu'n dysgu yn nosbarth Yr Aran am gyfnod cyn yr haf. Mae cyfnod dwy o'r llywodraethwyr hefyd wedi dod i ben, sef Mrs Wendy Lemon a Mrs Rosemary Williams. Diolch i chi am eich cyfraniad gwerthfawr a'r blynyddoedd o gefnogaeth rydych wedi roi i'r ysgol.

### Croeso

Rydym yn estyn croeso cynnes i ddau athro newydd dros dro atom, sef Miss Beth Roberts sydd yn dysgu blwyddyn 2 a 3 a Mr Tomos Owen sydd yn dysgu blwyddyn 4 a 5. Croeso hefyd i Miss Haf Tomlinson, un o'n cyn-ddisgyblion, sydd yn cychwyn gyda ni fel cymhorthydd yn nosbarth Elidir Fach. Gobeithio bydd y tri yn hapus iawn yma gyda ni yn Nhregarth.

### Mrs Llinos Williams

Ymlacio a mwynhau ydi hanes Mrs Llinos Williams bellach yn hytrach na pharatoi gwersi, cadw trefn ar blant a chwblhau gwaith papur! Rhoddodd Llinos flynyddoedd o wasanaeth i'r ysgol, yn wir dros 30 mlynedd, a chafwyd cyfle ar ddiwedd y tymor i ddiolch iddi am ei chyfraniad arbennig. Cychwynnodd Llinos acw fel athrawes lanw cyn symud ymlaen i swydd barhaol yn dysgu amrywiol oedrannau. Bu'n bennaeth cynorthwyol a hyd yn oed yn bennaeth yn ystod pandemig byd eang – nid pawb all ddweud hynny! I orffen, bu'n dysgu ym mhob dosbarth fel athrawes CPA. Yn sicr, bydd colled enfawr ar ei hol ac mae cenedlaethau o blant wedi cael yr addysg orau dan ei gofal. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i chi Mrs Williams ac anfonwn ein cariad a'n diolch o galon am eich holl waith caled, caredigrwydd a ffyddlondeb i'r ysgol. Mwynhewch yr amser arbennig yma!


**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

**- Cyfreithwyr -**

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*

Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000)

**JOHN ROBERTS**
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
**Symudol:** 07747 628650
**Ffôn:** 01248 600995

1969
**M.HUGHES A'I FAB**
**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn,
Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

**C.L. JONES**
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

**Diolch**
Hoffai Brenda Baston, Ffordd Llanllechid, Rachub ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ar ôl colli ei brawd, Douglas Baston, yn ddiweddar. Bydd y pres a gasglwyd yn ei enw yn mynd tuag at y British Heart Foundation.

**Carmel, Llanllechid**
**Llwyddiant**
Cafodd dau o gyn-ddisgyblion yr Ysgol Sul lwyddiant mawr wrth raddio mewn prifysgolion yn ystod yr haf eleni. Enillodd Joshua Hughes, Rhes Gefn, radd gydag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Peirianneg ym Mhrifysgol Bangor. Llongyfarchiadau mawr i ti, Joshua, a phob llwyddiant yn dy yrfa i'r dyfodol.

Enillodd Gwydion Rhys, Bron Arfon radd gydag anrhydedd dosbarth cyntaf hefyd mewn Cerddoriaeth yng Ngholeg Brenhinol Cerdd Llundain. Llongyfarchiadau mawr i tithau, Gwydion, a phob dymuniad da a llwyddiant i ti yn dy yrfa ym myd cyfansoddi.

**Cyhoeddiadau**
Mae tymor yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur wedi ailddechrau ac mae croeso i unrhyw un ymuno gyda ni ar foreau Sul neu ar nosweithiau Gwener.

Mae'r Clwb Gwau yn cael ei gynnal bob pythefnos o'r 1 af o fis Medi ymlaen. Bydd Te Bach cyntaf y tymor yn cael ei gynnal ar brynhawn yr 22 ain o fis Medi rhwng 2:30 a 4:00 o'r gloch. Croeso i bawb.

Llongyfarchiadau i un o gyn aelodau'r ysgol Sul, sef Alys Mair Humphreys (Alys Williams, Hen Barc gynt) ar gael ei phenodi'n ddiweddar yn arolygydd o fewn adran marchogaeth heddlu Llundain. Fe fydd Alys yn gweithio allan o New Scotand Yard ac yn rheoli defnydd ceffylau mewn digwyddiadau mawr, a threfn cyhoeddus yng nghanol Llundain.

## Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau oedfa 5:00y.h.
**Medi 21ain** –
Y Parchedig Dafydd Jôb
**Medi 28ain** –
Y Parchedig Mererid Mair
**Hydref 5ed** –
Y Parchedig Sara Roberts
**Hydref 12fed** –
Y Parchedig Nerys Griffiths
**Hydref 19eg** – Diolchgarwch
Ysgol Sul – 10:30 y bore
Clwb Dwylo Prysur, nos Wener 6:30y.h.
Croeso i bawb.







**DATHLU'R DIRWEDD LLECHI:**


**Diweddariad Blynyddol Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru**

**Neuadd Ogwen, Bethesda, Dydd Iau 23ain Hydref 2025 5:00 – 7:30pm.**

Cyfle i glywed am ddatblygiadau a phrosiectau cyffrous ar draws y Safle Treftadaeth y Byd yn 2025 a thu hwnt. Croeso cynnes i bawb a bwyd blasus.

Wyneb yn wyneb ac ar-lein : mae angen archebu'r naill ffordd drwy ddilyn y ddolen yma:
https://www.eventbrite.co.uk/e/dathlur-dirwedd-llechi-diweddariad-blynyddol-2025-tickets-1585393668139?aff=oddtdtcreator
/ copio'r cod QR ar y poster / neu e-bostio llechi@gwynedd.llyw.cymru

# CROESAIR



**AR DRAWS**

1 Yr arian mwyaf tebygol yn eich pwrs yn y Wladfa (4)
3 I gog sal i wneud iddo deimlo'n well wrth ei gosi (7)
8 Y pris mwyaf (7)
9 Mae'n uchel ym mhrifddinas Ffrainc (5)
10 Y wobr uchaf am ffilm (5)
11 Gwneud yn union fel y gorchmynnwyd (7)
12 Un o ddyddiau pwysicaf y gred Gristnogol (3,3,1,4)
17 Crymu a methu bod yn unionsyth (7)
19 I gronni'r dŵr yn Nhryweryn (5)
21 '- - - - - nawr' yn ddiymdroi ym Môn a Mynwy (4,1)
22 Fel tŷ neu ysgol neu eglwys (7)
23 Daeth ar ei ôl (7)
24 Ei wneud yn ddilychwin (4)

**I LAWR**

1 Y pluog rhodresgar yn ôl y gred (6)
2 Mae yn creu ias yn y môr (5)
3 Cystadlaethau y pum cylch i bob math o chwaraeon a phencampwriaethau (5,8)
4 Swnio fel rhwydwaith dywyll, ond mae'n addas a phriodol i'r gwaith (5)
5 Anlwcus (7)
6 "- - - - - - sgod" o'r pridd a'r môr yn hoff fwyd y werin medde nhw! (5,1)
7 Ni allant hedfan, y pluog mawr hyn (6)
13 Nid ydynt yn dal yma, maent wedi mynd (7)
14 Mae yn dalp enfawr o dan ein traed (6)
15 Heb ddim yn gudd na chaeedig (6)
16 Hel at ei gilydd yn un tyrfa (6)
18 Hadau ŷd, i frecwast fel arfer (5)
20 'Celwydd - - - - -', anwiredd bach diniwed (5)

Atebion erbyn 3ydd Hydref 2025 fan bellaf *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Medi', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD



**ATEBION CROESAIR GORFFENNAF/AWST 2025**

**AR DRAWS** 1 Cwm, 3 Sill, 5 Mellt, 8 Eiddoch, 9 Un Funud, 10 Awgrymu, 12 Reslo, 13 Ust, 15 Gludo, 17 Chwi, 19 Abaty, 20 Blewiach, 23 Bariton, 24 Cychod, 25 Osgo, 26 Sŵn, 27 UDA

**I LAWR** 1 Crebachu, 2 Meddyg, 3 Sych Dy, 4 Lleucu, 5 Myfyrio, 6 Llond Sach, 7 Adio, 11 Mêl, 14 Trac Ras, 15 Gwylltio, 16 Dil, 18 Iechyd Da, 19 Abba, 20 Bonws, 21 Eicon, 22 Iachau

Camgymeriadau y tro hwn oedd 'rasio' yn lle 'reslo' (12 Ar Draws) gan dri ohonoch, a 'dal' yn lle 'dil' (16 i Lawr) gan un arall.

Ond llongyfarchiadau i'r mwyafrif ohonoch am atebion hollol gywir :
Gill King, Mynydd Llandygai; Rosemary Williams, Gareth Oliver, Dulcie Roberts, Tregarth; John Ffrancon Griffith, Abergele; Judith Hughes, Llangoed; Myrddin Williams, Capel Uchaf Clynnog; Medi a Iorwerth Michael, Bangor; Elsi Prytherch, Waen Wen; David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; Meilyr Wyn, Gerlan; Iona Williams, Llanddulas; Carol Wyn Hardy, Pontypridd; Rita Bullock, Doris Shaw, Ann Morris, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Barbara Jones, Talybont; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan.

Mae'r wobr a'r clod y tro hwn yn mynd i Meilyr Wyn, 11 Bryn Caseg, Gerlan, Bangor, LL57 3RW.


**MODURDY FFRYDLAS**

Profion M.O.T.

**PERCHNOGION**

A.LL. ac R.W. WILLIAMS

**Stryd Fawr, Bethesda**

PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com